# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 10 a 17 Gorffennaf 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

18 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

22 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

34 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

36 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Adran Rheoli Cofnodion y Cynulliad

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ryddhau'r rhestrau etholiadol wedi'u marcio ar ôl etholiadau'r Cynulliad ar 1 Mai 2003 a ddelir gan Adran Rheoli Cofnodion y Cynulliad? (WAQ27224) [W]

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** O dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2003, dylai'r copïau sydd wedi'u marcio o'r rhestrau etholiadol gael eu darparu i'r cyhoedd. Er hynny, mynegwyd pryder a fyddai gwneud hyn yn gydnaws â hawl y pleidleiswyr unigol i breifatrwydd, o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Felly, yr wyf yn aros am gyngor cyfreithiol diffiniol ar hyn. Hyd nes y byddaf yn derbyn y cyngor hwnnw, ataliwyd mynediad at y rhestrau hynny. Cyn gynted ag y byddaf wedi derbyn y cyngor, un ai y caiff y rhestrau eu darparu i'r cyhoedd i'w harchwilio, neu byddaf yn gwneud datganiad llawn am y rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

### Prif Weithredwyr Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**Leighton Andrews:** Faint o brif weithredwyr cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy'n ennill dros £90,000, a phwy ydynt? (WAQ27240)

**Y Prif Weinidog:** Mae'r wybodaeth hon eisoes yn cael ei chyhoeddi yng nghyfrifon blynyddol pob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Ym mlwyddyn ariannol 2001-02, y flwyddyn ddiweddaraf y mae cofnodion llawn ar gael amdani, derbyniodd dau brif weithredwr dâl o £90,000 neu fwy. Y ddau gorff oedd Awdurdod Datblygu Cymru a Dysgu ac Addysgu Cymru, h.y. y prif weithredwr a oedd ar y pryd yn bennaeth ar y Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

### Undeb Rygbi Cymru

**Laura Anne Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru restru nifer yr achlysuron y mae wedi cyfarfod ag Undeb Rygbi Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf, a rhestru'r dyddiadau? (WAQ27260)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi cyfarfod yn ffurfiol ag Undeb Rygbi Cymru ar un achlysur yn ystod y 12 mis diwethaf. Cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw ar 20 Tachwedd 2002. Yr wyf hefyd wedi cwrdd yn anffurfiol ar sawl achlysur ag uwch aelodau a swyddogion o'r Undeb mewn digwyddiadau chwaraeon.

### Undeb Rygbi Cymru

**Laura Anne Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru restru nifer yr achlysuron y mae wedi derbyn lletygarwch oddi wrth Undeb Rygbi Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf, a nodi'r dyddiadau? (WAQ27261)

**Y Prif Weinidog:** Ar wahân i gêm Cymru yn erbyn yr Eidal ym mis Mawrth 2002 a gêm Cymru yn erbyn Ffiji ym mis Tachwedd 2002, yr wyf wedi derbyn lletygarwch oddi wrth yr undeb ym mhob gêm a gynhaliwyd dan nawdd yr undeb yn Stadiwm y Mileniwm ers imi gael fy mhenodi yn Brif Weinidog.

### Swyddfeydd Post

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â chyd-weithwyr yn San Steffan ynghylch cyflwyno'r trefniadau i dalu budd-daliadau'n uniongyrchol ac ynghylch eu heffaith ar swyddfeydd post yng Nghymru? (WAQ27273)

**Y Prif Weinidog:** Dim. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a swyddogion wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda'r Adran Masnach a Diwydiant ynglŷn â'r mater hwn a llawer o faterion eraill sy'n effeithio ar swyddfeydd post yng Nghymru.

### Cyfleusterau Llys Newydd yn y Drenewydd

**Glyn Davies:** A yw'r Prif Weinidog wedi trafod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol hynt y cynllun i ddarparu cyfleusterau llys newydd yn y Drenewydd a phryd y mae'r cynllun yn debygol o ddechrau? (WAQ27333)

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Cyfansoddiadol am y mater hwn, gan mai'r Adran dros Faterion Cyfansoddiadol sy'n gyfrifol amdano. Fodd bynnag, bydd y Gweinidog Cyllid yn ystyried cynllun busnes amlinellol ar gyfer prosiect menter cyllid preifat arfaethedig i lysoedd Gwent a Dyfed-Powys cyn bo hir, ac mae cyfleusterau llys newydd yn y Drenewydd yn rhan o'r prosiect hwnnw. Deallaf mai nod yr amserlen arfaethedig yw darparu ystad lysoedd newydd i Went a Dyfed-Powys erbyn 2007.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Canolfannau Hamdden o dan Reolaeth Cynghorau

**David Davies:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gynorthwyo'r canolfannau hamdden a redir gan y cynghorau yng Nghymru? (WAQ27175)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol eu hunain yw canolfannau hamdden sy'n cael eu rhedeg gan y cynghorau. Yr wyf wrth fy modd fod pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn cymryd rhan yn y cynllun peilot sy'n cynnig nofio am ddim yr haf hwn. Mae hwn yn gynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i ddarparu mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chanolfannau hamdden a phyllau awdurdodau lleol.

### Cyrff Chwaraeon Gwirfoddol Lleol

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth a roddir i gyrff chwaraeon gwirfoddol lleol yng Nghymru? (WAQ27176)

**Alun Pugh:** Ar hyn o bryd mae dros 6,000 o gyrff chwaraeon gwirfoddol yn gweithredu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mawr werthfawrogi'r cyfraniad y mae mudiadau chwaraeon gwirfoddol lleol yn ei wneud at ddarparu chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol ar draws Cymru. Byddwn yn parhau i gefnogi'r adnodd hanfodol y maent yn ei ddarparu drwy gynlluniau hyfforddi a datblygu hyfforddwyr Cyngor Chwaraeon Cymru a Champau'r Ddraig, sy'n ceisio cynyddu nifer y gwirfoddolwyr.

### Pêl-droed

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gefnogaeth a roddir i bêl-droed yng Nghymru? (WAQ27177)

**Alun Pugh:** Mae bron i £1.3 miliwn o gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i gefnogi datblygiad pêl-droed yng Nghymru. Ffrwyth yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Fforwm Pêl-droed yw'r cyllid hwn, ac Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru sy'n gyrru'r argymhellion hyn yn eu blaen.

### Mynediad Am Ddim i Amgueddfeydd ac Orielau

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd yn adeiladu ar y polisi o roi mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau? (WAQ27179)

**Alun Pugh:** Yr oedd cyflwyno mynediad am ddim i Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yn amlygu awydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu mynediad at ein trysorau cenedlaethol i holl bobl Cymru. Mae mynediad yn cael ei ehangu ymhellach drwy'r cynllun 'Cyfoeth Cymru Gyfan—Sharing the Treasures', sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i weithredu gan Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Chyngor Amgueddfeydd Cymru. Byddaf yn lansio'r ail arddangosfa beilot yn Amgueddfa Wrecsam ar 29 Gorffennaf.

Mae'r cynllun yn gwella cyfleusterau mewn amgueddfeydd ac orielau lleol fel bod eitemau prin a gwerthfawr o'n casgliadau cenedlaethol yn gallu cael eu harddangos a'u gwerthfawrogi gan bobl ledled Cymru. Mae'r amgueddfa genedlaethol a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cynnal trafodaethau ynglŷn â sefydlu cynllun cyffelyb ar gyfer orielau celf lleol ledled Cymru.

### Ad-Drefnu Cyngor Amgueddfeydd Cymru

**Alun Cairns:** Beth yw'r diweddaraf ynghylch ad-drefnu Cyngor Amgueddfeydd Cymru? (WAQ27181)

**Alun Pugh:** Bydd CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yn cael ei sefydlu fel is-adran o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru o 1 Ebrill 2004. Bydd yn ymgorffori'r rhan fwyaf o swyddogaethau Cyngor Amgueddfeydd Cymru, swyddogaethau Cyngor Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd (Cymru), a bydd hefyd yn gofalu am archifau. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Amgueddfeydd Cymru yn ystod y cyfnod pontio.

### Ad-Drefnu Cyngor Amgueddfeydd Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y broses o ad-drefnu Cyngor Amgueddfeydd Cymru? (WAQ27182)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid i Gyngor Amgueddfeydd Cymru ar hyn o bryd a bydd hynny'n parhau tan 31 Mawrth 2004. Bydd is-adran newydd yn cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru o 1 Ebrill 2004. Fe'i gelwir yn CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, a fydd yn ymgorffori'r rhan fwyaf o swyddogaethau Cyngor Amgueddfeydd Cymru, swyddogaethau Cyngor Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgelloedd (Cymru), a bydd yn gyfrifol am y sector cyfan, gan gynnwys archifau.

Bydd CyMAL yn rhoi cyngor polisi awdurdodol imi am wasanaethau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol, bydd yn rhoi cyngor a chymorth ariannol i amgueddfeydd annibynnol a gwirfoddol ac amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd eraill, a bydd yn datblygu a gweithredu polisïau sy'n briodol i Gymru.

### Sefydlu Archif Genedlaethol

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch sefydlu archif genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru? (WAQ27291)

**Alun Pugh:** Cyflwynodd Jonathan Morgan welliant i'r cynnig am lyfrgelloedd a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Mehefin 2003.

### Archif Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cwrdd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i drafod sefydlu archif genedlaethol yng Nghymru? (WAQ27292)

**Alun Pugh:** Naddo.

### Sefydlu Oriel Genedlaethol yng Nghymru

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi cwrdd ag Amgueddfeydd ac Orielau Cymru i drafod sefydlu oriel genedlaethol yng Nghymru? (WAQ27293)

**Alun Pugh:** Mae cynigion yr amgueddfa genedlaethol i fod i ddod i law yn yr hydref, yn dilyn ei hymarferiad ymgynghori â'r cyhoedd 'Arddangos yn y Dyfodol'. Byddaf yn cyfarfod â'r llywydd i'w trafod yn fanwl. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon.

### Canolfannau Celfyddydol

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pryd y bydd y gweithgor a sefydlwyd o dan y cyn-Weinidog yn cwrdd i drafod dyraniad y £2 miliwn a addawyd i ganolfannau celfyddydol y tu allan i Gaerdydd? (WAQ27319) [W]

**Alun Pugh:** Mae'r £2 miliwn yr ydym wedi ymrwymo i'r celfyddydau y tu allan i Gaerdydd, o'r adeg pan ddaw Canolfan Mileniwm Cymru i fodolaeth, ar gyfer datblygu'r celfyddydau yn gyffredinol. Nid wyf eto wedi penderfynu sut y dylid defnyddio'r arian hwn. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau yn yr hydref.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Rhaglen Amcan 1

**Lynne Neagle:** Yn dilyn yr ateb a roddwyd i WAQ21078, a all y Gweinidog ddweud faint o arian rhaglen Amcan 1, fesul y pen o'r boblogaeth, y mae'r De-ddwyrain, y Gogledd a'r Gorllewin wedi'i dderbyn? (WAQ26916)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Yn ychwanegol at fy ateb cynharach, penderfynwyd peidio â chasglu gwybodaeth ofodol am wariant ar y rhaglen Amcan 1 gan y byddai hynny'n rhoi baich afresymol ar noddwyr prosiectau. Fodd bynnag, mae gwybodaeth allbwn, sy'n fwy defnyddiol er mwyn monitro effaith y rhaglen, yn cael ei chasglu am ardal pob un o'r partneriaethau lleol.

### Swyddi Gweithgynhyrchu yng Nghymru

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sylw a wnaed gan undeb llafur Amicus ar 24 Mehefin 2003 i'r perwyl y bydd yr holl swyddi gweithgynhyrchu yng Nghymru wedi'u colli ymhen 25 mlynedd os byddant yn parhau i gael eu torri i'r un graddau ag ar hyn o bryd? (WAQ26971)

**Andrew Davies:** Mae'r diwydiant gweithgynhyrchu yn bwysig iawn i Gymru. Fodd bynnag, mae cylchoedd busnes yn effeithio mwy ar y diwydiant nwyddau buddsoddi nag ar rannau eraill o'r economi felly, ar adegau anodd, mae pethau'n ymddangos yn ddrwg iawn i'r sector gweithgynhyrchu. Mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir; mae cynhyrchu nwyddau buddsoddi yn faes sy'n tyfu'n gyflymach na sectorau eraill pan fydd yr economi yn cryfhau.

## Economi Cymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr presennol economi Cymru? (WAQ26979)

**Andrew Davies:** Er gwaethaf amodau anodd drwy'r byd, mae'r sefyllfa economaidd drwyddi draw yng Nghymru yn hynod o gryf. Mae cyfradd diweithdra Cymru yn is erbyn hyn na chyfradd y DU gyfan ac mae niferoedd y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra wedi cyrraedd lefelau na welwyd mohonynt ers canol yr 1970au. Yn ogystal, mae cyflogaeth yng Nghymru wedi cynyddu 69,000 yn ystod y flwyddyn hyd at y tri mis yn gorffen ym mis Ebrill, gyda chynnydd y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru dros y cyfnod hwnnw yn uwch nag yn unrhyw ranbarth arall o'r DU.

## Arian Amcan 1

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfanswm yr arian Amcan 1 a ddyranwyd ac a wariwyd hyd yn hyn? (WAQ27208)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o arian Amcan 1 a ddyrannwyd ac a wariwyd gan bob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad hyd yn hyn? (WAQ27211)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o arian Amcan 1 a ddyranwyd ac a wariwyd gan bob prifysgol hyd yn hyn? (WAQ27212)

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o arian Amcan 1 sydd wedi'i ddyrannu a'i wario gan bob awdurdod lleol hyd yn hyn? (WAQ27213)

**Andrew Davies:** Hyd yma, mae bron i 800 o brosiectau Amcan 1 wedi cael eu cymeradwyo, gydag ymrwymiad grant o bron i £500 miliwn. Mae'r taliadau sydd wedi eu gwneud i noddwyr prosiectau yn agos at £200 miliwn. Nid oes dadansoddiad o'r wybodaeth ar gael yn y ffurf a geisir. Yr wyf wedi gofyn i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ymgymryd â'r dadansoddi angenrheidiol, a byddaf yn ysgrifennu atoch cyn gynted ag y daw'r canlyniadau i law.

## Grantiau Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o grantiau gwasanaethau trafnidiaeth leol a ddyrannwyd i bob awdurdod lleol bob blwyddyn ers 2001? (WAQ27209)

**Andrew Davies:** Rhestrir y dyraniadau i bob awdurdod lleol o dan gynllun y grant gwasanaethau trafnidiaeth leol ym mlynyddoedd 2001-02, 2002-03 a 2003-04 yn y tabl isod.

**Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol (dyraniadau i awdurdodau lleol)**

| Awdurdod lleol | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ |
| Ynys Môn | 250,595 | 289,161 | 311,773 |
| Gwynedd | 421,422 | 488,837 | 527,028 |
| Conwy | 224,652 | 269,800 | 304,384 |
| Sir Ddinbych | 224,781 | 266,530 | 297,500 |
| Sir y Fflint | 306,456 | 367,171 | 415,850 |
| Wrecsam | 240,795 | 289,626 | 332,839 |
| Powys | 468,488 | 543,090 | 584,178 |
| Ceredigion | 265,553 | 308,020 | 334,017 |
| Sir Benfro | 335,877 | 394,091 | 430,238 |
| Sir Gaerfyrddin | 596,432 | 692,201 | 750,945 |
| Abertawe | 303,721 | 377,858 | 447,746 |
| Castell-nedd Port Talbot | 314,636 | 373,208 | 415,591 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 268,699 | 321,246 | 362,100 |
| Bro Morgannwg | 245,357 | 295,637 | 333,024 |
| Caerdydd | 365,759 | 466,345 | 556,416 |
| Rhondda Cynon Taf | 387,041 | 470,828 | 543,220 |
| Merthyr Tudful | 98,981 | 119,259 | 137,625 |
| Caerffili | 277,186 | 337,879 | 392,899 |
| Blaenau Gwent | 103,277 | 126,586 | 148,916 |
| Tor-faen | 165,684 | 199,615 | 229,830 |
| Sir Fynwy | 254,132 | 298,345 | 325,046 |
| Casnewydd | 180,477 | 224,666 | 268,835 |
| | | | |
| **Cymru** | **6,300,000** | **7,520,000** | **8,450,000** |

**Grantiau Ariannu Trafnidiaeth Gymunedol**

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o grantiau ariannu trafnidiaeth gymunedol a ddyrannwyd i awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ers 1999? (WAQ27210)

**Andrew Davies:** Nid oes grant wedi'i ddyrannu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn benodol ar gyfer trafnidiaeth gymunedol. Fodd bynnag, er mis Ebrill 2002, bu disgwyl i awdurdodau lleol wario o leiaf 5 y cant o'u dyraniadau o dan gynllun grant gwasanaethau trafnidiaeth leol ar gynorthwyo prosiectau trafnidiaeth gymunedol.

**Aildrefnu Arwyddion Traffig**

**Jonathan Morgan:** Beth yw cynlluniau'r Gweinidog o ran ystyried aildrefnu arwyddion traffig yng nghanol dinas Caerdydd? (WAQ27234)

**Andrew Davies:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i wneud hynny. Cyfrifoldeb statudol yr awdurdod lleol yw rheoli traffig.

**Ffordd Osgoi Llanbadarn yng Ngheredigion**

**Nick Bourne:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r gwaith gychwyn ar ffordd osgoi Llanbadarn yng Ngheredigion? (WAQ27279)

**Andrew Davies:** Mae ffordd liniaru i Lanbadarn Fawr wedi cael ei rhestru ym mlaenraglen y cefnffyrdd 2002 fel cynllun sydd wedi'i atal am y tro. Ailedrychir ar yr achos o blaid y ffordd liniaru pan fydd y materion yn ymwneud ag ad-drefnu cefnffyrdd yr A44 a'r A487 yn Aberystwyth wedi eu datrys fel rhan o'r adolygiad cyfredol o'r cefnffyrdd. Yn y cyfamser, nid oes adnoddau yn cael ei neilltuo ar ei chyfer.

**Ffordd Osgoi Llanbadarn yng Ngheredigion**

**Nick Bourne:** Pa ymgynghori fydd yn digwydd ynghylch y gwaith ar ffordd osgoi Llanbadarn yng Ngheredigion? (WAQ27280)

**Andrew Davies:** Mae ffordd liniaru i Lanbadarn Fawr wedi cael ei rhestru ym mlaenraglen y cefnffyrdd 2002 fel cynllun sydd wedi'i atal am y tro. Ailedrychir ar yr achos o blaid y ffordd liniaru pan fydd y materion yn ymwneud ag ad-drefnu cefnffyrdd yr A44 a'r A487 yn Aberystwyth wedi eu datrys fel rhan o'r adolygiad cyfredol o'r cefnffyrdd. Yn y cyfamser, nid oes adnoddau yn cael ei neilltuo ar ei chyfer. Pe câi penderfyniad ei wneud i fwrw ymlaen â ffordd liniaru, bydd angen ystyried yr angen am ymgynghori cyhoeddus cyn cychwyn ar unrhyw ymgynghoriadau a gweithdrefnau statudol angenrheidiol.

## Ffordd Liniaru Arfaethedig Rhondda Fach i'r Maerdy

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog sôn am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i estyn ffordd liniaru arfaethedig Rhondda Fach i'r Maerdy? (WAQ27322)

**Andrew Davies:** Yr ydym wedi ymrwymo i gyllido ffordd liniaru'r Porth/Rhondda Fach Isaf, a fydd yn dechrau yn 2004-05 ac yn cymryd tua dwy flynedd i'w chwblhau. Nid ydym yn gwahodd cynlluniau ffyrdd newydd oddi wrth yr awdurdodau lleol eleni gan fod rhaglen ffyrdd y grant trafnidiaeth wedi ei hymrwymo'n llwyr am beth amser.

## Grant Buddsoddi'r Cynulliad

**Leighton Andrews:** Beth yw cost prosesu pob cais am grant buddsoddi'r Cynulliad, a faint o aelodau staff Awdurdod Datblygu Cymru sy'n ymwneud â phrosesu grantiau buddsoddi'r Cynulliad? (WAQ27325)

**Andrew Davies:** Ar gyfartaledd, mae cais yn costio tua £580 drwy'r broses ar ei hyd, o'r gwaith cychwynnol yn hyrwyddo cynllun i ymdrin ag ymholiadau a gwerthuso cais, a monitro cynllun wedi hynny. Mae hyn yn llai na 2 y cant o grant, sydd ymron i £32,000 ar gyfartaledd. Caiff y cynllun ei weithredu gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ac nid oes a wnelo unrhyw aelodau o staff yr awdurdod datblygu yn uniongyrchol ag ef.

## Llwybr Treftadaeth Ddiwydiannol

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth a roddwyd a'r cynnydd hyd yma i ddatblygu llwybr treftadaeth ddiwydiannol ar hyd Ffordd Blaenau'r Cymoedd gan gynnwys: (i) y Pwll Mawr a'r gweithfeydd haearn ym Mlaenafon, (ii) pentref model Bute Town yn Rhymni, (iii) y gweithfeydd haearn a Chastell Cyfarthfa ym Merthyr Tudful, a (iv) Pwll Glo'r Tŵr yn Hirwaun? (WAQ27332)

**Andrew Davies:** Mae datblygu llwybr treftadaeth ddiwydiannol yn ne Cymru yn elfen allweddol yng nghynllun partneriaeth treftadaeth ar waith Herian, a bydd yn rhan o lwybr treftadaeth ddiwydiannol ehangach sy'n cael ei ddatblygu yn Ewrop. Mae buddsoddi sylweddol yn y dreftadaeth ddiwydiannol ar y gweill eisoes yn Abertawe yn y Gorllewin a Blaenafon yn y Dwyrain. Mae Herian yn bwriadu manteisio ar y buddsoddiadau hyn a lledaenu'r budd posibl ar draws de Cymru gyfan.

Nid yw cynllun Herian ond ar y cam cynllunio ar hyn o bryd, ac nid yw'r buddsoddiadau penodol yn y gwahanol elfennau ar eu gwedd derfynol eto. Mae Bwrdd Croeso Cymru, yn uniongyrchol a thrwy gynllun adfywio'r pum sir, wedi ymrwymo i roi £860,000 i'r prosiect. Mae bwrdd prosiect Herian wrthi ar hyn o bryd yn trafod rhoi cynllun deongliadol i Herian ar waith gyda phartneriaid a grwpiau cymunedol, drwy gyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar draws de Cymru. Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal ym Merthyr Tudful, Caerdydd, Blaenafon, Aberdâr ac Abertawe.

## Chwarel Llanfair, Crughywel

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog, ei ragflaenydd neu swyddogion wedi'u cael ynghylch chwarel Llanfair, Crughywel? (WAQ27336) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Nid wyf fi na'm rhagflaenydd wedi cael trafodaethau ynghylch chwarel Llanfair ger Crughywel gyda pherchenogion y chwarel nac unrhyw rai eraill sydd â buddiant ynddi. Mae swyddog o gyfarwyddiaeth drafnidiaeth y Cynulliad wedi trafod materion mynediad ar hyd y ffyrdd gyda swyddog o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a ofynnodd i gangen rheoli rhwydwaith y Cynulliad a oedd ganddi unrhyw bryderon ynglŷn ag effaith ailagor y chwarel ar fynediad i'r gefnffordd. Gan mai dim ond un cerbyd y

dydd a ddisgwylir ar y gyffordd hon, sydd eisoes yn cario cerbydau nwyddau trymion, nid oedd cyfiawnhad dros newid y gyffordd, ac felly ni wnaed sylwadau am y cais cynllunio.

### Costau Rhedeg Blynyddol Cyfredol Pontydd Hafren

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynghylch costau rhedeg blynyddol cyfredol y ddwy bont Hafren? (WAQ27337)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau penodol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynglŷn â chostau gweithredu y ddwy bont sy'n croesi afon Hafren. Mae'r costau gweithredu a chynnal a chadw rheolaidd yn rhan o'r cytundeb consesiwn rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth a Severn River Crossing ccc, dyddiedig 1990.

### Deddf Pontydd Hafren 1992

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynghylch y contract rhwng Llywodraeth ei Mawrhydi a Severn River Crossing ccc yng ngoleuni Deddf Pontydd Hafren 1992? (WAQ27338)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynglŷn â'r contract rhyngddo ef a Severn River Crossing ccc. Cynhelir cyfarfodydd cyswllt rheolaidd rhwng yr Asiantaeth Priffyrdd, Severn River Crossing ccc a swyddogion o gyfarwyddiaeth trafnidiaeth y Cynulliad, ac mae sut y mae'r ddwy bont ar draws afon Hafren yn gweithredu a'r consesiwn yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd hynny.

### Cynllun Croesfan Hafren

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynghylch unrhyw ddyled sy'n weddill ar gynllun croesfan Hafren, a chyfradd gostwng y ddyled? (WAQ27339)

**Andrew Davies:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ynglŷn â'r ddyled sy'n weddill ar gonsesiwn pontydd afon Hafren. Yr wyf yn ymwybodol, fodd bynnag, fod y ddyled sy'n weddill yn £512.7 miliwn, fel a nodir yng nghyfrifon Severn River Crossing ccc, dyddiedig 31 Rhagfyr 2002, a'r dyddiad rhagamcanedig pryd y daw'r consesiwn i ben, ar sail y gyfradd bresennol o incwm refeniw, yw 2016.

### Ffordd Osgoi Cas-gwent

**Michael German:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ffordd osgoi Cas-gwent, o ystyried nifer y damweiniau wrth y gyffordd A48/Bulwark? (WAQ27340)

**Andrew Davies:** Nid oes gan y Cynulliad unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â ffordd osgoi i Gas-gwent fel rhan o'i rhaglen gefnffyrdd. Yr oedd y Swyddfa Gymreig, fodd bynnag, wedi nodi ei chefnogaeth i brosiect menter breifat i godi ffordd osgoi allanol i Gas-gwent, ac wedi cynnig gwneud cyfraniad ariannol. Gan gydnabod hyn, sicrhaodd y Swyddfa Gymreig, ynghyd â hen Gyngor Sir Gwent, ran o lwybr y ffordd osgoi arfaethedig drwy gyfrwng cytundebau gyda datblygwr, sydd wedi adeiladu ffordd ar linell y ffordd osgoi arfaethedig yn y pen de-orllewinol. Yr oedd y Swyddfa Gymreig hefyd o'r farn y byddai ffordd osgoi fewnol i Gas-gwent yn mynd i'r afael â'r materion diogelwch ar Riw Hardwick. Fodd bynnag, yn sgîl sylwadau oddi wrth y cyhoedd ac eraill, cafodd y cynigion hyn eu tynnu'n ôl. Mae is-raddio'r A48 drwy Gas-gwent yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac, os bwrir ymlaen â hynny, byddai'n caniatáu i'r awdurdod lleol dawelu'r traffig ar gefnffordd yr A48. Cynhelir ymchwiliad i achos y ddamwain ar gyffordd yr A48/Bulwark a bydd mesurau diogelwch ychwanegol priodol posibl yn cael eu hystyried.

## Cynllun Teithio Am Ddim ar Fysiau

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o bensiynwyr yng Nghymru sydd wedi manteisio ar y cynllun teithio am ddim ar fysiau? (WAQ27385)

**Andrew Davies:** Hyd yn oed cyn ehangu'r cynllun i gynnwys dynion rhwng 60 a 64 oed, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2003, yr oedd bron i 400,000 o docynnau wedi cael eu rhoi i bobl hŷn a phobl ag anableddau, sef cynnydd o bron i 60 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn gynt.

## Cynllun Teithio am Ddim ar Fysiau

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amcangyfrif o gyfanswm cost y cynllun teithio am ddim ar fysiau yng Nghymru? (WAQ27386)

**Andrew Davies:** Rhoddwyd £24.1 miliwn gennym i awdurdodau lleol yn 2002-03 i ariannu blwyddyn gyntaf ein cynllun gorfodol sy'n sicrhau y caiff yr henoed a phobl anabl deithio am ddim ar wasanaethau bws lleol. Yn 2003-04, mae'r dyraniadau yn gyfanswm o £33 miliwn, a disgwylir iddynt fod yn gyfanswm cyffelyb yn 2004-05. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cadarnhau bod y dyraniadau hyn yn ddigon i dalu'n llawn y costau y mae'n amcangyfrif a ddaw i ran yr awdurdodau.

## Gwasanaethau Rheilffordd

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch gwasanaethau rheilffordd i'r gorllewin o Abertawe? (WAQ27404)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar annog defnyddio rheilffyrdd yn Sir Benfro? (WAQ27405)

**Nick Bourne:** Pa fesurau sy'n bodoli er mwyn annog rhagor o ddefnydd o'r rheilffyrdd er mwyn cludo nwyddau o Abergwaun? (WAQ27406)

**Nick Bourne:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn diwallu anghenion Cymru o ran rheilffyrdd? (WAQ27407)

**Nick Bourne:** Pa ofynion sy'n bodoli o ran gwella cerbydau trenau yng Nghymru? (WAQ27408)

**Andrew Davies:** Cyfarfûm â Richard Bowker, cadeirydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, ar 15 Mai 2003 a chodais nifer o faterion yn ymwneud â'r rheilffyrdd gydag ef, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am fasnachfraint Cymru a'r gororau. Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau gwasanaethau rheilffordd effeithlon a dibynadwy i Gymru drwy gydol oes y fasnachfraint.

Yr wyf wedi derbyn nifer o sylwadau am wasanaethau rheilffordd i'r gorllewin o Abertawe, yn enwedig mewn perthynas â chynnig yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol i ddiddymu'r gwasanaeth presennol rhwng Waterloo Llundain a gorllewin Cymru pan ddaw amserlen 2003-04 i ben. Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi egluro nad yw'r gwasanaeth hwn yn rhan o'r fanyleb i fasnachfraint newydd Cymru a'r gororau a bod gwasanaethau amgen rhwng de Cymru a Llundain. Serch hynny, pe bai gweithredwr newydd y fasnachfraint yn credu bod achos masnachol o blaid cynnal y gwasanaeth hwn, byddai'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn falch o fynd ar drywydd hynny gyda ef.

O ran cludo rhagor o nwyddau ar y rheilffordd o Abergwaun, mae cyllid ar gyfer grant cyfleusterau cludo nwyddau ar gael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i annog trosglwyddo nwyddau oddi ar y ffyrdd i'r rheilffyrdd, lle mae modd gwneud hynny yn gost-effeithiol.

Mae cerbydau trenau newydd, neu gerbydau sydd wedi cael eu hadnewyddu, un ai wedi cael neu'n mynd i gael eu cyflwyno ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd. Mae First Great Western yn defnyddio ei drenau newydd Adelante dosbarth 180 ar y llwybr o Abertawe i Paddington. Mae First North Western yn defnyddio ei drenau Coradia dosbarth 175 yng ngogledd Cymru, ac mae Valley Lines wedi adnewyddu ei fflyd gyfan o drenau Sprinter a Pacer erbyn hyn. O fis Medi 2004, bydd trenau Virgin yn cynnal pum gwasanaeth trên y dydd i'r naill gyfeiriad a'r llall rhwng Euston Llundain a Chaergybi, gan ddefnyddio cyfuniad o setiau trenau Voyager a Pendolino pum-cerbyd sy'n gogwyddo.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Ysgolion yn Abertawe

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllido ysgolion yn Abertawe? (WAQ27192)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru unrhyw ysgolion yn Abertawe sydd wedi cael cymorth ychwanegol i'r cyllid arferol a ddosbarthwyd? (WAQ27193)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Cynyddodd y gyllideb net ar gyfer ysgolion lleol a osodwyd gan Gyngor Sir Abertawe, gan gynnwys cyllid a ddarparwyd gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ar gyfer darpariaeth ôl-16, £12.456 miliwn i £123.121 miliwn yn 2003-04—cynnydd o 11.3 y cant. Mae'r awdurdod hefyd wedi derbyn cyfran o grantiau ychwanegol gan y Cynulliad tuag at addysg yn yr ysgol ac addysg y blynyddoedd cynnar, sy'n werth cyfanswm o £46.9 miliwn ar lefel Cymru gyfan. Mater i'r awdurdod lleol yn bennaf yw penderfynu pa ysgolion ddylai elwa o'r cyllid grant ychwanegol, yn dibynnu ar y dibenion y darparwyd pob grant ar eu cyfer. Nid oes gennyf unrhyw fanylion am sut y mae'r awdurdod wedi dosbarthu'r grantiau hyn i'w ysgolion.

### Yswiriant Gwladol a Phensiynau Athrawon

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y rhesymau pam na fydd colegau addysg bellach yng Nghymru bellach yn cael cyllid i dalu am yswiriant gwladol a phensiynau athrawon? (WAQ27222)

**Jane Davidson:** Nid yw sefydliadau addysg bellach erioed wedi derbyn cyllid a oedd wedi'i glustnodi'n benodol ar gyfer cyflogau na chyfraniadau yswiriant gwladol a chyfraniadau i gynllun pensiwn athrawon. Mae'r fformiwla gyllido reolaidd, a etifeddodd y Cyngor Cenedlaethol—ELWa oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, a ddefnyddir i fwrw cyfrif o ddyraniadau colegau unigol yn ystyried holl gostau darparu addysg bellach, gan gynnwys cyflogau staff a chostau pensiwn ac yswiriant gwladol. Fodd bynnag, oherwydd gofynion cyllido eithriadol yn y flwyddyn ariannol gyfredol, yr wyf wedi darparu £9 miliwn ychwanegol yn benodol ar gyfer cyflogau addysg bellach ynghyd â £4 miliwn pellach i gydnabod y cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol ychwanegol. Mae'r Cyngor Cenedlaethol—ELWa wedi dyrannu eu priod gyfran o'r ddarpariaeth ychwanegol hon i'r sefydliadau addysg bellach.

### Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

**Nick Bourne:** Pa gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru neu ELWa wedi'i ddyfarnu i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar gyfer cam cyntaf ei brosiect ailddatblygu? (WAQ27223)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cynllun datblygu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Ers dechrau cynllun datblygu'r coleg yn 2000-01, mae CCAUC wedi darparu dros £18.5 miliwn mewn dyraniadau grant, a oedd yn cynnwys pecyn cyllido arbennig i gefnogi'r cynllun datblygu. Mae'r cyllid a rydd y pecyn i'r coleg ar gyfer myfyrwyr sy'n cael hyfforddiant perfformio yn uwch na'r lefel a gaiff sefydliadau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban.

## Dysgu drwy Gyfrwng y Gymraeg

**Nick Bourne:** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer bodloni targedau uwch o ran addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion a sefydliadau addysg uwch Cymru? (WAQ27238)

**Jane Davidson:** Mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Gymraeg wedi'i nodi yn 'Iaith Pawb'. Yn ddiweddar, cynhyrchodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru adroddiad ar y cyflenwad o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg uwch, a'r galw amdano. Ar y cyd â'r cyngor, yr ydym yn asesu'n fanwl sut mae cynnig cymaint â phosibl o ddarpariaeth gynaliadwy o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y tymor canolig i hir.

Rhaid inni adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol a gwneud y mwyaf o ymdrechion cyfredol sefydliadau addysg uwch Cymru, a gofynnwyd i CCAUC ystyried sut y gallwn symud y gwaith yn ei flaen ar sail y llinellau sylfaen presennol, gan fod CCAUC eisoes yn neilltuo adnoddau sylweddol—ymhell dros £1 miliwn—ar gyfer darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Prydau Bwyd Ysgol am Ddim

**John Marek:** Pa wybodaeth sydd gan y Gweinidog ynghylch nifer y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim, nifer y disgyblion sy'n manteisio arno a'r nifer o brydau am ddim a weinir o'u cymharu â chyfanswm y prydau bwyd a weinir a nifer disgyblion ysgolion, ac a yw wedi dosbarthu unrhyw ganllawiau ynghylch cadw enwau'r plant sy'n derbyn cinio am ddim yn gyfrinachol? (WAQ27243)

**Jane Davidson:** Ym mis Ionawr 2002 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), yr oedd 92,557 o blant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Manteisiodd 74,095 ar hynny. Nid oes ffigurau ar gael am gyfanswm y prydau a weinwyd. Yr oedd 485,944 o ddisgyblion yn holl ysgolion Cymru, heb gynnwys unedau cyfeirio disgyblion. Caiff ysgolion eu hannog i ddefnyddio trefniadau talu a threfniadau eraill i sicrhau nad oes unrhyw sen yn cael ei bwrw ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu canllawiau ffurfiol ar hyn. Mae nifer sylweddol o ysgolion wedi dechrau defnyddio cardiau caniatáu i ymdrin â thalu ac i gasglu gwybodaeth am bwy sy'n gymwys.

## Prif Weithredwr dros dro ELWa

**John Marek:** Gan gyfeirio at yr ateb a dderbyniais i WAQ26041 oddi wrth brif weithredwr dros dro ELWa, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddyletswydd arbennig i fod yn gyfrinachol sydd wedi golygu nad yw manylion cymwysterau perthnasol wedi'u rhyddhau? (WAQ27244)

**Jane Davidson:** Fel y'i gwnaed yn glir gan y prif weithredwr dros dro yn ei ateb ichi, mater rhwng y Cyngor Cenedlaethol—ELWa, fel cyflogwr, a'r gweithiwr yw hwn. Nid oes gennyf fi felly unrhyw wybodaeth i ddweud pa un a oedd dyletswydd arbennig i fod yn gyfrinachol y credai'r cyngor y byddai'n cael ei thorri pe byddid yn rhyddhau manylion o'r fath.

## Fandaliaeth o Eiddo Ysgol

**Nick Bourne:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i ddiogelu eiddo ysgolion rhag fandaliaeth? (WAQ27254)

**Nick Bourne:** Beth yw cost flynyddol fandaliaeth o eiddo ysgolion a wneir y tu allan i oriau ysgol? (WAQ27255)

**Jane Davidson:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau addysg lleol a chyrff llywodraethu ysgolion yw diogelwch ysgolion. Mae mesurau i wella diogelwch, sy'n golygu buddsoddiad cyfalaf, yn gymwys i dderbyn

grantiau a ddarperir gan y Cynulliad, gan gynnwys grantiau gwella adeiladau ysgolion a grantiau cyfalaf i ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol. Ni chesglir costau fandaliaeth mewn ysgolion yn ganolog.

**Ysgolion yn Cau ym Mhowys**

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch y posibilrwydd y gallai ysgolion ym Mhowys gau, ac a wnaiff hi gyhoeddi'r sylwadau? (WAQ27278)

**Jane Davidson:** Derbyniais nifer o lythyron ynglŷn â'r posibilrwydd o gau dwy ysgol ym Mhowys: Llandinam a Llangurig. Yn yr ymatebion i'r llythyrau hyn, mae fy swyddogion wedi esbonio bod awdurdod addysg lleol Powys yn ymgynghori ynghylch sawl cynnig ar hyn o bryd, gan gynnwys y posibilrwydd o gau'r ysgolion yn Llandinam a Llangurig. Ar ôl ymgynghori, bydd yr awdurdod addysg lleol yn penderfynu pa un ai i fwrw ymlaen â'r cynigion statudol i gau'r ysgolion ai peidio. Os bydd yn penderfynu bwrw ymlaen, byddai'r awdurdod yn cyhoeddi rhybudd statudol a fyddai'n caniatáu cyfnod o ddau fis ar gyfer gwrthwynebiadau ffurfiol. Pe ceid gwrthwynebiadau, byddai gan yr awdurdod fis i ymateb a byddai'r cynigion, ynghyd â'r gwrthwynebiadau ac ymateb yr awdurdod lleol, yn dod ataf fi er mwyn imi benderfynu arnynt. Pe na bai gwrthwynebiadau, gallai'r awdurdod fwrw ymlaen i benderfynu ar y cynigion ei hun.

Nid yw sylwadau yn erbyn cynigion i gau ysgolion, boed y rheini'n ymatebion i ymgynghoriad neu'n wrthwynebiadau ffurfiol, yn cael eu cyhoeddi fel arfer gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai angen i Lywodraeth y Cynulliad gael cydsyniad yr unigolion dan sylw cyn eu cyhoeddi.

**Sefydliadau Addysg Uwch**

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn oddi wrth sefydliadau addysg uwch ynghylch cyllido? (WAQ27289)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau oddi wrth sefydliadau addysg uwch unigol ynghylch cyllido. Fodd bynnag, yr wyf wedi cynnig sicrwydd i'r sector yn gyffredinol y bydd darpariaeth ar gyfer yr agenda ad-drefnu, yn unol â'm strategaeth ar gyfer addysg uwch, 'Ymgeisio yn Uwch'. Yn wir, yr wyf wedi sicrhau £8 miliwn ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, yn cynyddu i'r swm sylweddol o £30 miliwn yn 2005-06, yn benodol ar gyfer 'Ymgeisio yn Uwch'.

Fel y gwyddoch, yr ydym wedi ymwrthod â ffïoedd newidiol yn ystod oes y Cynulliad hwn. Nid yw'r ymrwymiad hwn o reidrwydd yn golygu y bydd ffïoedd newidiol yn cael eu gwrthod yn y tymor hwy ac, er fy mod yn ymrwymo i roi ystyriaeth lawn i effaith ffïoedd newidiol ar yr agenda darparu mynediad i ddysgwyr yng Nghymru, yr wyf yn cydnabod ein dyletswydd i sicrhau bod ein sefydliadau addysg uwch yn cael eu hariannu'n dda a'u bod yn gystadleuol.

**Cyllidebau Atgyweirio a Chynnal a Chadw Ysgolion**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a ddylai holl anghenion atgyweirio ysgolion fynd drwy'r awdurdod addysg lleol? (WAQ27328)

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a ddylai ysgolion fod yn gallu gwario eu cyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw eu hunain drwy gael dyfynbrisiau lleol ar gyfer gwasanaethau? (WAQ27329)

**Jane Davidson:** Yr ysgolion unigol sy'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau ysgolion, a chaiff cyllid ei ddirprwyo yng nghyllidebau'r ysgolion. Mater i'r ysgol benderfynu arno yw'r trefniadau o ran gwaith angenrheidiol. Gall ysgolion un ai ymuno mewn cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod addysg lleol, gyda'r awdurdod wedyn un ai'n gwneud y gwaith neu'n trefnu iddo gael ei wneud, neu gall ysgolion wneud trefniadau gyda darparwyr gwasanaeth eraill. Lle bo ysgol yn gwneud ei threfniadau ei

hun, mae'n rhaid i'r rhain gydymffurfio â rheoliadau ariannol yr awdurdod lleol o safbwynt materion prynu, tendro a chontractau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Ceisiadau am Bremiwm Buchod Sugno

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffurflenni cais 'gwag' sydd ar gael i gynhyrchwyr er mwyn iddynt gwblhau eu ceisiadau am bremiwm buchod sugno ar gyfer 2003? (WAQ27180)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Caiff ffurflenni cais sydd wedi'u rhagargraffu ar gyfer cynllun 2003 eu cyhoeddi ddiwedd Medi. Erbyn hynny, yr ydym yn disgwyl y bydd mwyafrif ceisiadau cymhorthdal 2002 wedi cael eu dilysu yn erbyn system olrhain gwartheg Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain. Bydd hyn yn golygu bod modd i'r ffurflenni a ragargraffir ar gyfer cynllun 2003 gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am anifeiliaid unigol. Bydd hyn yn help i'r ffermwyr hynny osgoi cael eu cosbi am wneud hawliadau anghywir. Yn y cyfamser, dylai ffermwyr sy'n dymuno gwneud cais am gymhorthdal cyn y bydd ffurflenni wedi'u rhagargraffu ar gael ofyn am ffurflenni gwag oddi wrth eu swyddfa ranbarthol leol. Bu cyflenwadau o'r ffurflenni hyn ar gael ers yr wythnos yn dechrau 23 Mehefin.

### Rheoli Mewnforion Anghyfreithlon yng Nghymru

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd cynlluniau Tollau Tramor a Chartref ei Mawrhydi i haneru nifer y swyddi yn effeithio ar y cynllun gweithredu i wella'r modd y rheolir mewnforion anghyfreithlon yng Nghymru? (WAQ27194)

**Carwyn Jones:** Mae rôl Tollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi wedi cael ei hehangu i gynnwys cyfrifoldeb am fesurau atal smyglo ac ymdrin â mewnforio cig a chynnyrch anifeiliaid yn anghyfreithlon o wledydd y tu hwnt i'r Undeb Ewropeaidd. Mae £25 miliwn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi dros y tair blynedd nesaf i fynd i'r afael â mewnforion anghyfreithlon, gan gynnwys £4 miliwn ar gyfer y Tollau Tramor a Chartref yn y flwyddyn gyntaf. Bydd y buddsoddiad hwn yn gymorth tuag at amryw o weithgareddau ychwanegol, gan gynnwys creu pedwar tîm darganfod symudol gwrth-smyglo newydd, gyda chyfrifoldeb arbennig ar draws y DU am fynd i'r afael â smyglo cig a chynhyrchion anifeiliaid.

### Cyswllt Ffermio

**Lorraine Barrett:** Faint o geisiadau a wnaed am grantiau drwy Cyswllt Ffermio i wneud gwelliannau cyfalaf i gytiau cŵn, a faint sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd? (WAQ27197)

**Lorraine Barrett:** Faint o geisiadau llwyddiannus am grantiau a wnaed drwy Cyswllt Ffermio i wneud gwelliannau cyfalaf i gytiau cŵn? (WAQ27198)

**Lorraine Barrett:** Beth yw cyfanswm y grant a ddyfarnwyd trwy'r cynllun Cyswllt Ffermio at ddibenion gwneud gwelliannau cyfalaf i gytiau cŵn? (WAQ27199)

**Lorraine Barrett:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal â chymdeithasau lles anifeiliaid ynghylch y cynllun Cyswllt Ffermio? (WAQ27200)

**Lorraine Barrett:** A all y Gweinidog roi manylion llawn y gwelliannau cyfalaf i gytiau cŵn a wnaed o dan y cynllun Cyswllt Ffermio? (WAQ27207)

**Carwyn Jones:** Derbyniwyd a chymeradwywyd dau gais am fuddsoddiad cyfalaf tuag at gytiau cŵn. Cost lawn y prosiectau yw £54,391, ac mae grant o £22,866.85 wedi ei ddyfarnu. Nid oes ceisiadau eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Nid wyf wedi trafod Cyswllt Ffermio gyda chymdeithasau lles, ond gallaf gadarnhau mai lles anifeiliaid yw un o'r prif ystyriaethau pan fo ceisiadau am grant yn cael eu hasesu. Ni allaf wneud sylwadau am achosion unigol ond un o ofynion y cynllun grant mentrau fferm yw bod gwaith cyfalaf yn cael ei gwblhau yn unol â Safon Brydeinig BS5502.

### Grantiau Cyswllt Ffermio

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar a ellir defnyddio grantiau Cyswllt Ffermio i ehangu prosiectau sydd eisoes wedi'u sefydlu? (WAQ27201)

**Carwyn Jones:** Cafodd Cyswllt Ffermio ei sefydlu i helpu teuluoedd sy'n ffermio i greu a chynnal busnesau fferm sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. Un elfen o'r cynllun yw'r grant mentrau fferm, ac fe'i bwriadwyd i helpu i annog arallgyfeirio ar ffermydd. Y bwriad yw lleihau dibyniaeth ffermwyr ar weithgareddau amaethyddol prif ffrwd. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar ehangu prosiectau sydd eisoes wedi'u sefydlu, ar yr amod nad yw prosiectau o'r fath wedi'u bwriadu i gynyddu cynhyrchiant sylfaenol.

### Cynllun Tir Mynydd

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar a oes unrhyw ôl-groniad o ran taliadau i ffermwyr o dan y cynllun Tir Mynydd? (WAQ27202)

**Carwyn Jones:** Dechreuodd taliadau o dan gynllun Tir Mynydd 2003 ar 18 Mawrth. Mae nifer fach o gynhyrchwyr nad ydynt eto wedi derbyn eu taliad ond, ar 8 Gorffennaf, yr oedd 95 y cant o daliadau elfen 1 a 92 y cant o daliadau elfen 2 wedi cael eu gwneud.

### Treth Agregau

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gamau y mae wedi eu cymryd i leddfu effaith y dreth agregau ar chwareli fel yr un ym Mhenmaenmawr? (WAQ27203)

**Carwyn Jones:** Nid yw cwmpas a chynllun y dreth agregau yn fater sydd wedi'i ddatganoli; fe'i gweinyddir gan Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi. Mae cronfa gynaliadwyedd y dreth wedi'i bwriadu i hybu cynlluniau i ailgylchu agregau, a phrosiectau ar gyfer cymunedau sydd wedi'u lleoli'n agos at chwareli agregau a arferai gael eu gweithio a'r rhai sy'n dal i weithio. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi gweithredu i sicrhau bod yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan chwareli llechi yn elwa o'r dreth. Mae adroddiad blynyddol 2002-03 am gronfa gynaliadwyedd y dreth agregau i Gymru (copi ar wefan y Cynulliad) yn dangos bod y gronfa wedi rhwymo £2.9 miliwn hyd yma i brosiectau ledled Cymru.

### Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd diwygio'r PAC a chyflwyno taliadau sengl yn effeithio ar ffermwyr tenant? (WAQ27204)

**Carwyn Jones:** Gellir trosglwyddo'r hawl i daliad sengl gyda neu heb dir drwy werthu, a chyda thir drwy brydles. Mae hyn yn golygu y bydd ffermwyr tenant yn gallu gwerthu eu hawl i daliad sengl, ar yr amod eu bod wedi bodloni'r rheol defnydd 80 y cant yn ystod un flwyddyn galendr o leiaf, neu eu bod wedi ildio i'r gronfa genedlaethol bob hawl na chafodd ei defnyddio ym mlwyddyn gyntaf cynllun y taliad sengl. Bydd manylion pellach ynglŷn â throsglwyddo hawliau ar gael ar ôl i reoliadau gweithredu'r Comisiwn Ewropeaidd gael eu cyhoeddi yn yr hydref.

## Mastiau Technoleg Cyfathrebu Tetra

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gosod mastiau technoleg cyfathrebu TETRA yng Nghymru? (WAQ27205)

**Carwyn Jones:** Mae'r polisïau cynllunio defnydd tir sy'n ymdrin â gosod mastiau telathrebu, gan gynnwys mastiau Tetra, i'w gweld yn adran 12.13 o 'Bolisi Cynllunio Cymru' (Mawrth 2002) ac ychwanegwyd atynt gan Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 19, 'Telathrebu' (Awst 2002). Ein polisi cyffredinol yw hwyluso twf systemau telathrebu newydd a'r rhai sy'n bodoli'n barod tra'n cyflawni amcanion amgylcheddol.

## Mastiau Tetra

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar reoliadau cynllunio mewn perthynas â mastiau Tetra? (WAQ27206)

**Carwyn Jones:** Gall mastiau Tetra, megis mastiau eraill a gynhelir gan weithredwyr systemau cod telathrebu, elwa o hawliau datblygu a ganiateir a roddir gan Ran 24 o Atodlen 2 at y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir. Mae'r Gorchymyn hwnnw yn rhoi caniatâd cynllunio i fastiau telathrebu hyd at 15 metr o uchder, ar yr amod bod rhai amodau statudol yn cael eu bodloni. I fastiau dros 15 metr, ac i fastiau mewn ardaloedd megis parciau cenedlaethol, byddai angen caniatâd cynllunio penodol.

## Anheddau Newydd

**Jonathan Morgan:** A all y Gweinidog roi ffigur ar gyfer nifer yr anheddau newydd a adeiladwyd ers mis Ionawr 2001 yn (a) yr Eglwys Newydd, (b) Ystum Taf, (c) y Mynydd Bychan, (d) Rhiwbeina, (e) Tongwynlais a (f) Radyr/Treforgan? (WAQ27233)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth am adeiladu tai newydd ar lefel awdurdodau unedol yn unig. Nid oes gennym ffigurau am ranbarthau etholiadol unigol.

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ynghyd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, wedi casglu ffigurau am nifer yr anheddau (yn ôl band treth gyngor) ym mis Ebrill 2001 ar lefel rhanbarth etholiadol neu ward yng Nghymru a Lloegr. Bydd ffigurau Ebrill 2002 ar gael yn ddiweddarach eleni a byddant yn dangos i ba raddau y mae'r stoc dai wedi newid ers 2001 yn yr ardaloedd hyn ac ardaloedd lleol eraill.

## Grantiau dan y Cynllun Tir Mynydd

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pryd y bydd ffermwyr, y cymeradwywyd eu ceisiadau am grantiau dan y cynllun Tir Mynydd ym mis Mawrth, yn derbyn y taliadau? (WAQ27239)

**Carwyn Jones:** Dechreuwyd talu hawliadau Tir Mynydd 2003 ar 18 Mawrth ac, ar 8 Gorffennaf, yr oedd 95 y cant o daliadau elfen 1 a 92 y cant o daliadau elfen 2 wedi cael eu gwneud. Yr ydym yn ymdrechu i glirio'r gweddill cyn gynted â phosibl.

## Adroddiad Bwrdd Llywio Llywodraeth y DU

**Mark Isherwood:** A fydd y Gweinidog yn ymateb i adroddiad bwrdd llywio Llywodraeth y DU? (WAQ27249)

**Carwyn Jones:** Mae tair cainc gydberthnasol i'r deialog am faterion addasu genetig: dadl gyhoeddus; adolygiad o'r materion gwyddonol; ac astudiaeth i gostau a buddion cnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig. Mae 'GM Nation? The Public Debate' yn cael ei rhoi ar waith gan fwrdd llywio annibynnol, o dan

gadeiryddiaeth yr Athro Malcolm Grant o Gomisiwn Biotechnoleg Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd. Nod y ddadl gyhoeddus yw helpu i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd a chreu deialog rhwng pob safbwynt barn. Daw'r ddadl gyhoeddus i ben yn ddiweddarach y mis hwn, a gofynnwyd i'r bwrdd llywio roi adroddiad i'r Llywodraeth erbyn mis Medi 2003. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu'r ddadl gyhoeddus ac mae am i aelodau'r cyhoedd gyfrannu ati. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud ymrwymiad i ymateb yn ysgrifenedig i'r adroddiad am y ddadl gyhoeddus.

### Y Rhestr Genedlaethol o Hadau

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch posibilrwydd rhoi Chardon LL ar y rhestr genedlaethol o hadau? (WAQ27250)

**Carwyn Jones:** Nid yw Gweinidogion y DU eto wedi ystyried eu cyd benderfyniad pa un y dylid ychwanegu Chardon LL at restr genedlaethol hadau y DU ai peidio. Bydd y penderfyniad hwnnw yn cymryd pob tystiolaeth berthnasol i ystyriaeth, gan gynnwys y sylwadau llafar ac ysgrifenedig a wnaed am Charddon LL.

### Y Rhestr Genedlaethol o Hadau

**Mark Isherwood:** Cyn gwneud penderfyniad ynghylch posibilrwydd rhoi Chardon LL ar y rhestr genedlaethol o hadau, a fydd y Gweinidog yn ystyried ymateb Llywodraeth y Du i'r adroddiad terfynol ar 'y drafodaeth gyhoeddus' sy'n digwydd ar hyn o bryd? (WAQ27251)

**Carwyn Jones:** Mae'r Cynulliad yn awyddus i gyfyngu ar fasnacheiddio a thyfu cnydau GM, yng nghyd-destun deddfwriaeth y DU a'r UE. Polisi'r Cynulliad yw na ddylid gwneud penderfyniadau am restru Chardon LL yn genedlaethol hyd nes y bydd y deialog cyhoeddus wedi ei gwblhau a bod yr asesiadau fferm gyfan wedi cael eu gwerthuso'n llawn.

### Darparu Ffurflenni Hawlio 'Gwag'

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trefniadau wrth gefn i ddarparu ffurflenni hawlio 'gwag', a hynny er mwyn sicrhau nad oes oedi i gynhyrchwyr pan fo cyfnod cadw'r gwartheg yn dod i ben? (WAQ27258)

**Carwyn Jones:** Ysgrifennodd swyddogion at yr holl ymgeiswyr buchod sugno yng Nghymru yn ystod yr wythnos yn dechrau 9 Mehefin i'w hysbysu na fyddai ffurflenni wedi'u rhagargraffu ar gyfer cynllun 2003 yn cael eu rhyddhau mewn pryd ar gyfer dechrau'r cyfnod ymgeisio. Cynghorwyd yr ymgeiswyr hynny a oedd yn dymuno cyflwyno hawliad cyn y byddai ffurflenni wedi'u rhagargraffu ar gael i gysylltu â'u swyddfa ranbarthol i gael ffurflen wag. Cafodd yr wybodaeth hon ei rhoi hefyd yn rhifyn Mehefin o 'Gwlad' a thrwy hysbysiad yn y wasg hefyd. Yr oedd y ffurflenni gwag a'r llenyddiaeth i gyd-fynd â hwy ar gael o'r swyddfeydd rhanbarthol yn ystod yr wythnos yn dechrau 23 Mehefin.

### Mastiau Tetra

**Nick Bourne:** Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar fastiau Tetra yng Nghymru? (WAQ27274)

**Carwyn Jones:** Mae'r polisïau cynllunio defnydd tir sy'n ymdrin â gosod mastiau telathrebu, gan gynnwys mastiau Tetra, i'w gweld yn adran 12.13 o 'Bolisi Cynllunio Cymru' (Mawrth 2002) ac ychwanegwyd atynt gan Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 19, 'Telathrebu' (Awst 2002). Ein polisi cyffredinol yw hwyluso twf systemau telathrebu newydd a'r rhai sy'n bodoli'n barod tra'n cyflawni amcanion amgylcheddol.

### Y Promenâd yn Aberystwyth

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch datblygu a/neu adnewyddu'r promenâd yn Aberystwyth? (WAQ27288)

**Carwyn Jones:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau.

### Datblygiad yn Heol Tynyfron ym Mhenparcau, Aberystwyth

**Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch datblygiad arfaethedig yn Heol Tynyfron ym Mhenparcau, Aberystwyth? (WAQ27290)

**Carwyn Jones:** Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau.

### Cyswllt Ffermio (Cyfleusterau Bridio Cŵn)

**Leanne Wood:** Pa ganllawiau ar les anifeiliaid sydd gan Cyswllt Ffermio i'r sawl sydd am sefydlu cyfleusterau bridio cŵn? (WAQ27345)

**Leanne Wood:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau yr eir i'r afael â phryderon am les anifeiliaid mewn cysylltiad â busnesau ffermio cŵn bach sy'n cael eu hariannu gan Cyswllt Ffermio? (WAQ27346)

**Carwyn Jones:** Mae'n rhaid i bawb sy'n cael grant weithio gydag ymgynghorydd i gwblhau cynllun datblygu busnes fferm, a rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymdrin â lles anifeiliaid yn y cynllun hwnnw. Mae staff technegol y swyddfeydd rhanbarthol yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio wrth asesu'r cynllun datblygu busnes fferm a'r cais am grantiau. Gellir cael canllawiau ynglŷn â lles anifeiliaid oddi wrth uned dechnegol yr adran amaethyddiaeth a materion gwledig lle bo raid.

Mae'n ofynnol, o dan reolau cynlluniau penodol, i ymgeisydd am grant menter fferm feddu ar y sgiliau, y profiad neu'r cymwysterau angenrheidiol i gynnal a rheoli menter arallgyfeirio sy'n destun cymorth grant. Rhaid hefyd iddynt allu dangos eu bod yn cynnal y safonau sylfaenol o ran hylendid, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Wrth dderbyn grant, mae'r sawl sy'n ei dderbyn yn cytuno i asesu'r prosiect yn barhaus, gydag ymweliadau arolygu i sicrhau bod y prosiect yn cydymffurfio â'r datblygiad a gynigiwyd yn y cais ac â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gyfrifol am les anifeiliaid anwes, ac mae'r Cynulliad yn gweithio gyda'r adran honno a Gweithrediaeth yr Alban i ddatblygu strategaeth i Brydain ar iechyd a lles anifeiliaid. Nod y strategaeth yw lleihau effaith economaidd, gymdeithasol ac amgylcheddol clefydau anifeiliaid, a gwella lles anifeiliaid a gedwir gan ddyn.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Swyddfa Cymru

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw'r gwariant ar gyfer Swyddfa Cymru yn dod o floc Cymru, ac ynghylch a yw'r gwariant hwn yn cael unrhyw effaith o ran lleihau'r swm o arian a fyddai ar gael i'r Cynulliad Cenedlaethol at ei ddibenion ei hun? (WAQ26925)

**Y Gweindiog Cyllid (Sue Essex):** Mae costau Swyddfa Cymru yn rhan o derfyn gwariant adrannol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Swyddfa Cymru**

**Michael German:** A oes gan y Gweinidog unrhyw ran yn y broses o negodi/penderfynu ar lefel y gwariant y mae Swyddfa Cymru yn ei chymryd o grant Cymru? (WAQ26926)

**Sue Essex:** O dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae gan Swyddfa Cymru yr hawl i geisio arian ychwanegol allan o derfyn gwariant adrannol Cymru. Pe bai cais yn cael ei wneud yn y dyfodol i drosglwyddo arian fel hyn, bydd gennyf rôl i gytuno ar lefel y trosglwyddiad.

**Swyddi a Grëwyd yn y Sector Cyhoeddus**

**David Davies:** Faint o swyddi'r sector gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u creu ers sefydlu'r Cynulliad? (WAQ27162)

**Sue Essex:** Mae'r wybodaeth sydd ar gael o Arolwg y Llafurlu i'w gweld yn y tabl. Bu cynnydd net o 23,000 (6.7 y cant) yn nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru rhwng 1999 a 2002.

**Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus (miloedd)**

| | | | **Newid 1999-2002** | |
|---|---|---|---|---|
| | **1999** | **2002** | **000oedd** | **y cant** |
| **Cymru** | 343 | 366 | 23 | 6.7 |
| **Y DU** | 6249 | 6580 | 331 | 5.3 |

Ffynhonnell: Arolwg y Llafurlu

Nid yw'r ffigurau hyn wedi cael eu haddasu i gydnabod cyfrifiad 2001. Mae'r blynyddoedd yn rhedeg o fis Mawrth i fis Chwefror, er enghraifft 1999=Mawrth 1999 hyd at Chwefror 2000.

**Awdurdodau Lleol**

**Alun Cairns:** Pa gamau y gall y Gweinidog eu cymryd i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol? (WAQ27163)

**Sue Essex:** Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mater i gynghorwyr cyfreithiol yr awdurdodau eu hunain yw hwnnw, yn enwedig eu swyddogion monitro. O dan rai amgylchiadau, mae angen i archwilwyr allanol i'r awdurdodau lleol neu'r heddlu ymchwilio i achosion posibl o dor-cyfraith.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r codiadau a fu yn y gyllideb a ddarparwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o 1999 i 2003? (WAQ27164)

**Sue Essex:** Er 1999, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi derbyn cynnydd o 6.5 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd oddi wrth y Cynulliad mewn arian refeniw heb ei neilltuo.

**Awdurdodau Lleol (Prosesau Craffu)**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio cyfrifoldeb y Cynulliad o ran gweithredu prosesau craffu yn yr awdurdodau lleol? (WAQ27165)

**Sue Essex:** Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2000 i awdurdodau lleol sy'n gweithredu drwy drefniadau gweithrediaeth sefydlu pwyllgor(au) trosolwg a chraffu ac mae'n nodi'r pŵer sydd gan bwyllgor(au) o'r fath o safbwynt adolygu a chraffu ar swyddogaethau cyngor. Fodd bynnag, mater o

ddewis lleol yw union drefniant y pwyllgorau hyn (gan gynnwys eu nifer, eu haelodaeth a'u cylch gorchwyl)

Yn ôl y Ddeddf, gall y Cynulliad Cenedlaethol wneud rheoliadau hefyd i ganiatáu i awdurdodau lleol arfer 'trefniadau amgen' ac i bennu beth fyddai ffurf y trefniadau hyn. Mae awdurdodau lleol Gwynedd, Merthyr Tudful a Phowys wedi mabwysiadu 'trefniadau amgen'. O dan y trefniant hwn rhaid i gyngor fod â phrif bwyllgor craffu a rhwng tri ac wyth o bwyllgorau craffu eraill. Mae'r pwyllgorau hyn yn craffu ar y penderfyniadau a wneir gan y cyngor ac yn chwarae rôl bwysig wrth adolygu a gwneud cynigion ynglŷn â pholisi'r cyngor.

Mae rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn galluogi awdurdod lleol i lunio cynigion i newid ei drefniadau gweithredol. Yn ôl y rheoliadau rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru i unrhyw newid i rôl neu gyfrifoldeb y weithrediaeth (neu'r cyngor) neu i rôl neu strwythur pwyllgorau trosolwg neu graffu. O dan y rheoliadau hyn, rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi darparu canllawiau statudol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ar sut i roi trefniadau ar gyfer gweithrediaeth a threfniadau gweithredu amgen ar waith, sy'n cynnwys canllawiau ar graffu.

## Cabinetau Llywodraeth Leol

**Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y system gabinet mewn strwythurau llywodraeth leol? (WAQ27168)

**Sue Essex:** Mae 19 o'r 22 prif gyngor yn gweithredu ar ffurf modelau gweithrediaeth neu gabinet, ac mae tri yn gweithredu drwy drefniadau amgen. Mae pob un o'r 19 yn gweithredu drwy system arweinydd a chabinet. Cyflwynwyd strwythurau gwleidyddol newydd o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac fe'u bwriadwyd i gynyddu effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd yng ngweithdrefnau llywodraeth leol.

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, yr ydych yn aelod ohono, wedi penderfynu adolygu sut y mae'r strwythurau newydd yn gweithredu ac edrychaf ymlaen at weld ei adroddiad.

## Pridiannu Arian i'r Cynghorau Lleol

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud o ran pridiannu arian i'r cynghorau lleol? (WAQ27169)

**Sue Essex:** Gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ymrwymiad yn ei datganiad polisi 'Rhyddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol' y dylai mwyafrif helaeth y cymorth refeniw i lywodraeth leol fod heb ei bridiannu. Mae lefel y grantiau sydd wedi'u pridiannu yng Nghymru yn parhau i fod yn llai na 4 y cant o'r holl arian a roddir gan y Cynulliad i'r awdurdodau lleol.

## Etholiadau'r Cynghorau Lleol 2004

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei hamserlen arfaethedig ar gyfer ymgynghori ynghylch a ddylid cynnal etholiadau cynghorau lleol 2004 ar yr un diwrnod â'r etholiadau Ewropeaidd? (WAQ27170)

**Sue Essex:** Mae'r Mesur Llywodraeth Leol yn cynnwys pwerau arfaethedig ar gyfer y Cynulliad er mwyn iddo allu cyflwyno Gorchymyn i newid dyddiad yr etholiadau lleol yn 2004 i gyd-fynd â'r etholiadau Ewropeaidd. Yr wyf wrthi ar hyn o bryd yn ystyried pa un i wneud hyn yng Nghymru neu

gadw at y dyddiad gwreiddiol gan gyfuno'r etholiadau â'r posibiliadau o ddefnyddio dulliau newydd o bleidleisio.

**Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd rhaglen Cymru ar gyfer gwella yn adeiladu ar lwyddiant y fframwaith Gwerth Gorau o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ27171)

**Sue Essex:** Cyflwynwyd rhaglen Cymru ar gyfer gwella yn 2002, mewn partneriaeth â llywodraeth leol, fel yr olynydd i Gwerth Gorau. Mae'n rhan annatod o bolisi llywodraeth leol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Er bod adolygiadau ac arolygiadau Gwerth Gorau wedi arwain at nifer o gynigion penodol i wella gwasanaethau unigol, mae rhaglen Cymru ar gyfer gwella wedi galluogi'r awdurdodau lleol i edrych ar eu perfformiad at ei gilydd a theimlo mai eu heiddo nhw yw eu cynlluniau gwella. Diben rhaglen Cymru ar gyfer gwella yw annog yr awdurdodau i ganolbwyntio ar eu prif flaenoriaethau gwella, ymgorffori dull rheoli perfformiad yn eu gwaith beunyddiol, canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu cynlluniau gwella, a mabwysiadu agwedd fwy eang ei gorwelion.

**Mesur Llywodraeth Leol**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y Mesur Llywodraeth Leol yn rhoi cyfle i ddinasyddion a staff gyfrannu at wella gwasanaethau cyhoeddus? (WAQ27172)

**Sue Essex:** Mae a wnelo'r Mesur Llywodraeth Leol yn bennaf â diwygio cyfundrefn ariannol llywodraeth leol. Mae wedi'i gynllunio er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol yn eu penderfyniadau ariannol, gan eu galluogi i ymateb yn haws i anghenion lleol. Bydd cyflwyno dosbarthau gwella busnes hefyd yn golygu y bydd cynghorau yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau lleol. Bydd angen i'r cynghorau gytuno gyda'u cymunedau lleol ynghylch eu strategaethau tai lleol.

Mae hefyd ddarpariaeth sy'n galluogi awdurdodau lleol i gynnal pleidlais leol ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'u swyddogaethau.

**Gwasanaethau Cyhoeddus (Cwmnïau'r Sector Annibynnol)**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddisgrifio sut y mae'n bwriadu annog cwmnïau'r sector annibynnol i fod yn rhan o'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus? (WAQ27173)

**Sue Essex:** Yr oedd cynrychiolwyr o'r sectorau busnes a gwirfoddol yn rhan o'r adolygiad o'r Gwerth Gorau a arweiniodd at ddatblygu rhaglen Cymru ar gyfer gwella. Mae'r canllawiau ynglŷn â rhaglen Cymru ar gyfer gwella yn ei gwneud yn glir y dylai adolygiadau o wasanaethau gynnwys arfarniad opsiynau sy'n edrych ar nifer o opsiynau gwahanol o safbwynt trefniadaeth, rheolaeth a chaffael. Yn ogystal, mae menter gaffael Cymru, a lansiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2001, wrthi'n gweithio'n ddiwyd ar nifer o brosiectau sydd wedi'u bwriadu i sicrhau gwell gwerth am arian wrth gaffael yn ogystal â datblygu rôl caffael cyhoeddus i hybu datblygu economaidd a chynaliadwy.

**Effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cyhoeddus**

**David Davies:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i wella effeithlonrwydd y gwasanaethau cyhoeddus? (WAQ27174)

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 16 Gorffennaf 2003.*

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud buddsoddiadau cyfalaf a fydd yn galluogi'r rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus—athrawon, meddygon, nyrsys—i weithio'n effeithiol ac

effeithlon. Yr ydym hefyd yn buddsoddi i ddatblygu'r bobl a'r diwylliant a rydd inni wasanaethau effeithlon, o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

### Byrddau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**Leighton Andrews:** Faint o bobl sy'n gwasanaethu ar fyrddau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru? (WAQ27259)

**Sue Essex:** Mae 228 o bobl a benodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gwasanaethu ar fyrddau cyrff cyhoeddus gweithredol ac ymgynghorol a noddir gan y Cynulliad yng Nghymru.

### Awdurdodau Lleol (Cynnal Ffyrdd)

**Leighton Andrews:** A wnaiff adolygu pwerau a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol i gynnal a chadw ffyrdd heb eu mabwysiadu, ac a oes ganddi gynlluniau i symleiddio'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn mabwysiadu ffyrdd a lonydd? (WAQ27324)

**Sue Essex:** Mae pwerau'r awdurdodau lleol i gynnal a chadw ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu wedi'u nodi yn Neddf Priffyrdd 1980. Nid ydym yn ceisio newidiadau y byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol i'w gweithredu, ond bwriadwn gyflwyno canllawiau i'r awdurdodau lleol yn fuan yn egluro eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

### Adolygiad o Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol

**Glyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch pryd y bydd yr adolygiad nesaf o etholaethau seneddol a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad yn dechrau? (WAQ27334)

**Glyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch pryd y bydd yr adolygiad nesaf o etholaethau seneddol a rhanbarthau etholiadol y Cynulliad wedi'i gwblhau? (WAQ27335)

**Sue Essex:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â'r adolygiad o etholaethau seneddol ac o ranbarthau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol i'r adolygiad cyfredol o etholaethau seneddol ac o ranbarthau etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol ddechrau ar 16 Rhagfyr 2002. Gwnaeth y Dirprwy Brif Weinidog y cyhoeddiad drwy roi hysbysiad yn *The London Gazette*. Dylai'r adolygiad bara tan 2006.

### Fformiwla Barnett

**David Lloyd:** Sut fydd newidiadau i wariant yn yr adran iechyd yn Lloegr, yn sgil creu ysbytai sefydledig, yn effeithio ar ddyraniad arian i Gymru drwy Fformiwla Barnett? (WAQ27344)

**Sue Essex:** Mae'r Adran Iechyd yn derbyn arian ychwanegol oddi wrth y Trysorlys bob blwyddyn ac mae Cymru yn derbyn ei chyfran briodol drwy fformiwla Barnett. Nid yw penderfyniadau gwario'r Adran Iechyd yn effeithio ar sut y mae'r fformiwla yn gweithio.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Swyddi Gwag ar gyfer Bydwragedd

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddi gwag ar gyfer bydwragedd sydd ar gael, ac am ba hyd y bydd y swyddi'n parhau yn wag? (WAQ26982) [R]

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ar 30 Medi 2002, yr oedd 12.1 o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn ar gyfer bydwragedd a oedd wedi bod yn wag am dri mis. Yr oedd hyn yn cyfateb i 1 y cant o'r swyddi.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y bydwragedd yng Nghymru yn sylweddol ac mae'n bwriadu cyflawni hyn drwy barhau i gynyddu nifer yr hyfforddeion, gwneud rhagor o recriwtio dramor, a thrwy godi proffil GIG Cymru fel cyflogwr.

### Therapi Galwedigaethol

**David Lloyd:** Pa ganllawiau a roddir i'r byrddau iechyd lleol mewn perthynas â mynd i'r afael â'r anghenion o fewn maes therapi galwedigaethol? (WAQ26989) [R]

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw cynllunio'r gwasanaethau iechyd y mae eu hangen ar eu poblogaeth. Wrth wneud hynny, mae ganddynt ddyletswydd statudol i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill i lunio strategaethau i wella iechyd, lles a gofal cymdeithasol y bobl sy'n byw yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau therapi galwedigaethol.

Mae holl ofynion gweithlu'r GIG o ran therapyddion galwedigaethol yn cael eu hystyried wrth benderfynu ar y niferoedd addysg i'w comisiynu ar gyfer y proffesiwn. Mae'r gwaith o ganfod anghenion addysg therapyddion galwedigaethol cymwysedig yn cael ei reoli gan therapyddion galwedigaethol, mewn partneriaeth â'u cyflogwyr, drwy adolygiadau proffesiynol a chynlluniau datblygu unigol. Caiff canllawiau pellach i Gymru gyfan eu cynnwys yn y strategaeth dysgu gydol oes fydd yn cael ei chyhoeddi cyn bo hir.

### Moderneiddio Meddygfeydd ac Ysbytai

**Michael German:** Pryd fydd Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi £550 miliwn yn ychwanegol i'r gyllideb a luniwyd cyn mis Mai 2003 er mwyn moderneiddio meddygfeydd ac ysbytai? (WAQ27156)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ystyried hyn fel rhan o broses cylch cyfredol cynllunio'r gyllideb. Yn y cyfamser, mae nifer o gynlluniau ysbyty a gofal sylfaenol a grybwyllwyd yn benodol yn ein maniffesto ar y gweill ar hyn o bryd yng Nghymru.

### Arthritis Gwynegol

**Jonathan Morgan:** Faint o gleifion ag arnynt arthritis gwynegol sydd â'r hawl i gael triniaeth wrth-TVF, a faint sy'n cael eu trin? (WAQ27184)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch yn cael ei chadw'n ganolog.

### Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch p'un a yw'n fwriad lleoli ambiwlans awyr gogledd Cymru yng Nghaernarfon yn barhaol? (WAQ27191)

**Jane Hutt:** Bydd yr ail ambiwlans awyr i Gymru yn cael ei lleoli ym maes awyr Caernarfon dros fisoedd yr haf. Mae'r opsiynau o ran safle parhaol yn parhau i gael eu hystyried. Caiff llwyddiant safle Caernarfon ei werthuso ym mis Hydref eleni ar ôl iddo fod yn gweithredu am dri mis.

### Mastiau Tetra (Goblygiadau Iechyd)

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y goblygiadau iechyd posibl i bobl sy'n byw yn ymyl mastiau Tetra? (WAQ27195)

**Jane Hutt:** Y Bwrdd Cenedlaethol Amddiffyn rhag Radioleg sy'n cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â goblygiadau iechyd posibl cyswllt â meysydd electromagnetig, gan gynnwys y tonnau radio sy'n gysylltiedig â thelathrebu. Gofynnwyd i'r bwrdd ystyried agweddau iechyd a diogelwch technoleg Tetra a chafodd adroddiad a gyhoeddwyd gan grŵp cynghori annibynnol y bwrdd ar ymbelydriad anïoneiddio ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2001.

Nodai'r adroddiad nad yw'r signalau o orsafoedd Tetra yn pylsio tra bo'r rheini o derfynellau (setiau llaw) ffonau symudol a throswyr yn gwneud hynny. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol Amddiffyn rhag Radioleg o'r farn felly nad oes unrhyw reswm i gredu y dylid trin signalau o orsafoedd Tetra yn wahanol i signalau o orsafoedd eraill. Daw'r cyngor iechyd ynglŷn â gorsafoedd ffonau symudol i'r casgliad:

'The balance of evidence indicates that there is no general risk to health of people living near base stations on the basis that exposures are expected to be small fractions of guidelines.'

Canfu'r adroddiad mai ffracsiynau bach o'r canllawiau rhyngwladol oedd cyswllt y cyhoedd ag ymbelydredd o orsafoedd Tetra. Daw'r adroddiad i'r casgliad hefyd:

'Although areas of uncertainty remain about the biological effects of low level Radio Frequency radiation in general, including modulated signals, current evidence suggests that it is unlikely that the special features of the signals from Tetra mobile terminals and repeaters pose a hazard to health.'

Gwnaeth y Bwrdd Cenedlaethol Amddiffyn rhag Radioleg nifer o argymhellion ar gyfer ymchwil pellach y mae Llywodraeth y DU yn eu tywys yn eu blaen. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad agos â'r bwrdd ynglŷn â datblygiadau sy'n deillio o ymchwil yn y maes hwn.

**Mastiau Tetra (Goblygiadau Iechyd)**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y goblygiadau i iechyd y cyhoedd drwy osod mastiau technoleg cyfathrebu TETRA yng Nghymru? (WAQ27196)

**Nick Bourne:** Pa asesiadau iechyd a wnaed mewn perthynas â mastiau Tetra yng Nghymru, neu'r tu hwnt? (WAQ27275)

**Jane Hutt:** Y Bwrdd Cenedlaethol Amddiffyn rhag Radioleg sy'n cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â goblygiadau iechyd posibl cyswllt â meysydd electromagnetig, gan gynnwys y tonnau radio sy'n gysylltiedig â thelathrebu. Gofynnwyd i'r bwrdd ystyried agweddau iechyd a diogelwch technoleg Tetra a chafodd adroddiad a gyhoeddwyd gan grŵp cynghori annibynnol y bwrdd ar ymbelydriad anïoneiddio ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2001.

Nodai'r adroddiad nad yw'r signalau o orsafoedd Tetra yn pylsio tra bo'r rheini o derfynellau (setiau llaw) ffonau symudol a throswyr yn gwneud hynny. Mae'r Bwrdd Cenedlaethol Amddiffyn rhag Radioleg o'r farn felly nad oes unrhyw reswm i gredu y dylid trin signalau o orsafoedd Tetra yn wahanol i signalau o orsafoedd eraill. Daw'r cyngor iechyd ynglŷn â gorsafoedd ffonau symudol i'r casgliad:

'The balance of evidence indicates that there is no general risk to health of people living near base stations on the basis that exposures are expected to be small fractions of guidelines.'

Canfu'r adroddiad mai ffracsiynau bach o'r canllawiau rhyngwladol oedd cyswllt y cyhoedd ag ymbelydredd o orsafoedd Tetra. Daw'r adroddiad i'r casgliad hefyd:

'Although areas of uncertainty remain about the biological effects of low level Radio Frequency radiation in general, including modulated signals, current evidence suggests that it is unlikely that the special features of the signals from Tetra mobile terminals and repeaters pose a hazard to health.'

Gwnaeth y Bwrdd Cenedlaethol Amddiffyn rhag Radioleg nifer o argymhellion ar gyfer ymchwil pellach y mae Llywodraeth y DU yn eu tywys yn eu blaen. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad agos â'r bwrdd ynglŷn â datblygiadau sy'n deillio o ymchwil yn y maes hwn.

**Pobl Fyddar a Phobl sydd â Nam ar eu Clyw**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwella gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i bobl fyddar a phobl sydd â nam ar eu clyw yng Nghymru? (WAQ27215)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu gwella'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl fyddar a phobl sydd â nam ar eu clyw yng Nghymru yn ystod y pedair blynedd nesaf? (WAQ27216)

**Jane Hutt:** Mae cyrff GIG yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, sy'n helpu i sicrhau bod y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol i bobl fyddar a phobl sydd â nam ar eu clyw yn gwella'n barhaus. Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, uned cydraddoldeb GIG Cymru, y Comisiwn Hawliau Anabledd ac Ystadau Iechyd Cymru ac eraill i gyd yn gweithio i wella'r gwasanaethau hyn ar draws Cymru.

Gwnaed gwaith sylweddol i foderneiddio'r adrannau clywedeg yn sgîl cyhoeddi arian (£1.5 miliwn) ym mis Chwefror 2001 i ddarparu offer hanfodol a chyfleusterau profi er mwyn gosod cymhorthion clyw modern. Yr oedd bron i 4,400 o gymhorthion clyw digidol wedi cael eu gosod erbyn diwedd mis Ionawr eleni.

Dyrannwyd £1.7 miliwn i'r awdurdodau iechyd yn 2002-03 i brynu cymhorthion clyw sy'n defnyddio technoleg newydd ac i recriwtio staff ychwanegol. Gweithredir cynlluniauar hyn o bryd i gyflwyno system trac cyflym er mwyn hyfforddi graddedigion fel clywedegwyr.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ariannol tuag at waith Cyngor Cymru i'r Byddar, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Chymdeithas Fyddar Prydain yn y flwyddyn ariannol hon.

**Feirws Gorllewin Nîl**

**David Melding:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o rybudd Syr Liam Donaldson y gallai De Cymru fod yn agored i feirws Gorllewin Nîl os bydd yr hinsawdd yn twymo? (WAQ27218)

**Jane Hutt:** Nid oes unrhyw achosion dynol o dwymyn Gorllewin Nîl wedi cael eu diagnosio hyd yma yn y wlad hon, er chwilio amdani. Mae'r tebygrwydd y bydd y clefyd yn dod yn ddifrifol neu'n gyffredin yn isel. Mae'n debyg y byddai'n rhaid i'r hinsawdd newid cyn y gallai hynny ddigwydd.

Yr ydym yn rhannu ymroddiad yr Adran Iechyd i arolygu da, a thrwy greu Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd a'r Asiantaeth Amddiffyn Iechyd yr ydym wedi cryfhau ein gallu i ymateb i fygythiadau, gan gynnwys feirws Gorllewin Nîl.

**Lefelau Staffio mewn Ysbytai yng Nghymru**

**David Lloyd:** Pa fesurau sydd yn eu lle i ddiogelu lefelau staffio mewn ysbytai yng Nghymru yn erbyn cystadleuaeth oddi wrth gyflogwyr eraill sy'n cynnig gwell amodau a thelerau i ddoctoriaid a nyrsys? (WAQ27219) [R]

**Jane Hutt:** Mae'r strategaeth recriwtio a chadw a lansiwyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2002 yn nodi cyfres o fesurau i wella gallu GIG Cymru i ddenu a chadw staff. Mae'r rhain yn cynnwys hybu addysg a datblygiad proffesiynol parhaus drwy ddatblygu strategaeth dysgu gydol oes i'r staff i gyd;

ffurfio Proffesiynau Iechyd Cymru i hybu addysg barhaus i nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr proffesiynol yn gysylltiedig a meddygaeth a gwyddonwyr gofal iechyd; rhaglenni dychwelyd i ymarfer ar gyfer nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd; cyflwyno swyddi nyrsys a therapyddion ymgynghorol a datblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol i fod yn gymorth wrth gynllunio a gwerthuso swyddi. Yn ogystal, mae ymgyrch dychwelyd i ymarfer lwyddiannus yn cael ei chynnal ar gyfer nyrsys a gweithwyr proffesiynol yn gysylltiedig a meddygaeth. Mae'r cyfleusterau gofal plant yn cael eu gwella hefyd. Mae'r GIG yng Nghymru yn paratoi ar gyfer moderneiddio cyflogau yn y GIG—'Agenda ar gyfer Newid'—a fydd yn cynnwys cynnydd o 12.5 y cant ar gyfartaledd i staff GIG yn eu cyflog sylfaenol dros y tair blynedd nesaf ac yn cyflwyno cynllun cyflogau hyblyg a gynllunir er mwyn cael gwared ag anghydraddoldebau a chaniatáu i staff gael eu gwobrwyo'n deg ac yn briodol am y gwaith a wnânt ac, wrth gwrs, mae'r GIG yn cynnig cynllun pensiwn sydd wedi'i seilio ar y cyflog terfynol.

### System o Hunan-Brofi Lefelau Tewdra'r Gwaed

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynlluniau sydd ar y gweill i gyflwyno system o hunan-brofi lefelau tewdra'r gwaed i gleifion sydd ar hyn o bryd yn cymryd meddyginiaethau yn erbyn ceulad gwaed, fel nad oes raid iddynt ymweld â chlinig yn rheolaidd? (WAQ27221)

**Jane Hutt:** Nid oes cynlluniau cyfredol i wneud hyn. Fodd bynnag, gall cleifion ddefnyddio stribedi profi CoaguCheck (sydd ar gael ar bresgripsiwn) ar y cyd â mesuryddion CoaguCheck (nad ydynt ar bresgripsiwn). Mae addysg a chefnogaeth barhaus yn hollbwysig i gleifion sy'n dewis y dull hwn, gan fod angen cyngor arnynt i ddehongli canlyniadau'r profion ac ar sut i symud ymlaen yn unol ag hynny.. Nid yw gwneud eu profion eu hunain yn cael ei argymell i bob claf, yn enwedig y rheini sy'n ddryslyd neu'r rhai sydd â chyflyrau difrifol.

### Fferyllfeydd Carmel a Gorsedd

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y manteision a ddeuai i gleifion Carmel a Gorsedd o'u disgrifio fel mannau 'gwledig' o ran gwasanaethau fferyllol? (WAQ27225)

**Jane Hutt:** Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 (fel y'u diwygiwyd) SI Rhif 662, neu 'reoliadau 1992', yw'r rheoliadau sy'n nodi'r drefn o ran cyflwyno ceisiadau ac apeliadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol.

O dan y rheoliadau hyn, mae'n bosibl i rai cyrff wneud cais i newid disgrifiad ardaloedd. Os gwneir cais, nid oes gan yr awdurdod priodol unrhyw ddewis ond ystyried y cais a dyfarnu yn unol â'r meini prawf.

Mae newid disgrifiad Carmel a Gorsedd yn ei gwneud yn haws i fferyllwyr sefydlu eu hunain yn yr ardal, a byddai hynny'n gwella'r gwasanaethau i gleifion. Nid oes unrhyw warant y bydd unrhyw fferyllwyr yn dewis gwneud hynny, a dyna pam y mae mesurau diogelu yn y rheoliadau i ddiogelu'r cleifion mwyaf bregus.

### Cleifion Fesul Meddyg Teulu

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi'r ffigurau diweddaraf ar gyfer nifer y cleifion fesul meddyg teulu yng Nghymru? (WAQ27226)

**Jonathan Morgan:** Sut mae nifer y cleifion fesul meddyg teulu yng Nghymru yn cymharu â (a) Lloegr, a (b) gweddill y Deyrnas Unedig? (WAQ27227)

**Jane Hutt:** Ar 30 Medi 2002, 1,704 oedd nifer y cleifion ar restr meddygon teulu ar gyfartaledd (wedi'i seilio ar nifer y meddygon teulu) yng Nghymru. Y ffigur cyfatebol yn Lloegr oedd 1,838. Nid oes ffigur ar gyfer 2002 yn y DU ar gael eto ond yr oedd yn 1,779 ym mis Medi 2001.

## Gweithio Dros y Ffin

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod dirprwy feddygon teulu yn gweithio dros y ffin ac nad yw meddygfeydd cydweithredol o dan anfantais oherwydd bod rheoliadau gwahanol yng Nghymru a Lloegr? (WAQ27228)

**Jane Hutt:** Cyflwynwyd rheoliadau yng Nghymru ym mis Awst 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i bob meddyg teulu nad oes ganddo bractis, gan gynnwys dirprwy feddygon teulu, wneud cais i gael ei restru ar restr atodol bwrdd iechyd lleol. Nid yw'r rheoliadau'n wahanol i'r rheoliadau yn Lloegr ac fe'u cyflwynwyd fel rhan o'r diwygiadau i ddeddfwriaeth gofal sylfaenol yn sgîl achos Shipman. Yng Nghymru, yr ydym wedi mabwysiadu dull gweithredu strategol, gyda'r gwaith gweinyddol yn cael ei wneud gan y ganolfan gwasanaethau busnes ar ran y Byrddau Iechyd Lleol. Mae hyn wedi golygu bod modd ymdrin mewn ffordd fwy cyson â'r broses restru.

Mae'n ofynnol i feddygon teulu sydd wedi'u rhestru yn y naill wlad neu'r llall weithio dros y ffin. Nid oes cost i feddygon sy'n gwneud cais i gael eu rhestru; y ganolfan gwasanaethau busnes, sy'n gweithredu o dan gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r byrddau iechyd lleol, sy'n talu'r costau i gyd. Ar 13 Mehefin, yr oedd 517 o feddygon teulu wedi'u rhestru ar restrau atodol Cymru, heb gynnwys meddygon teulu sy'n gofrestrwyr.

Mae'r swyddogion yn gweithio gyda'r byrddau iechyd lleol ar hyd y ffin a'r ganolfan gwasanaethau busnes i ganfod ffyrdd o symleiddio'r broses ymgeisio i feddygon teulu sydd wedi'u rhestru yn Lloegr ac i annog rhagor o geisiadau oddi wrth feddygon teulu mewn cwmnïau cydweithredol dros y ffin.

## Lleoedd gan Feddygon Teulu i Ragor o Gleifion

**Jonathan Morgan:** Sut mae nifer y lleoedd sydd gan feddygon teulu yng Nghymru i ragor o gleifion yn cymharu â (a) Lloegr, a (b) gweddill y Deyrnas Unedig? (WAQ27229)

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi ffigur ar gyfer nifer y lleoedd sydd gan feddygon teulu i ragor o gleifion (a) yng Nghaerdydd, ac (b) ar draws Cymru? (WAQ27230)

**Jonathan Morgan:** A all y Gweinidog roi ffigur ar gyfer cyfanswm nifer y lleoedd sydd gan feddygon teulu i gleifion yn (a) yr Eglwys Newydd, (b) Ystum Taf, (c) y Mynydd Bychan, (d) Rhiwbeina, (e) Tongwynlais a (f) Radyr/Treforgan? (WAQ27231)

**Jonathan Morgan:** A all y Gweinidog roi ffigur ar gyfer cyfanswm nifer y lleoedd sydd gan feddygon teulu i ragor o gleifion yn (a) yr Eglwys Newydd, (b) Ystum Taf, (c) y Mynydd Bychan, (d) Rhiwbeina, (e) Tongwynlais a (f) Radyr/Treforgan? (WAQ27232)

**Jane Hutt:** Nid yw'r gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael eu cynnal ar sail lleoedd i gleifion, felly ni chesglir y data. Mae Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992 yn pennu terfyn i nifer y cleifion ar restr meddyg teulu. Mae hwn yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol. Mae'r un rheoliadau yn rhoi'r hawl i gleifion gael eu cofrestru gyda meddyg teulu. Gall unrhyw berson sy'n cael anhawster i gael ei gofrestru wneud cais i'r bwrdd iechyd lleol i gael ei neilltuo i feddyg teulu.

## Triniaeth Ysbytai

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi ffigur ar gyfer nifer y: (a) cleifion o Gymru a gafodd eu trin mewn ysbytai yn Lloegr, a (b) nifer y cleifion o Loegr a gafodd eu trin yn ysbytai Cymru, yn 2002-03? (WAQ27236)

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog roi ffigur ar gyfer nifer y: (a) cleifion o Gymru a gafodd eu trin mewn ysbytai yn Lloegr, a (b) nifer y cleifion o Loegr a gafodd eu trin yn ysbytai Cymru, yn 2001-02? (WAQ27237)

**Jane Hutt:** Cafodd 11,803 o drigolion Lloegr episod gofal wedi'i gwblhau mewn ysbyty GIG yng Nghymru yn 2001-02. Dros yr un cyfnod, cafodd 40,946 o drigolion Cymru episod wedi'i gwblhau gydag ymgynghorydd mewn ysbyty GIG yn Lloegr. Nid yw'r wybodaeth ar gyfer 2002-03 yn gyflawn (72 y cant yn gyflawn i ddarparwyr o Gymru ac 84 y cant yn gyflawn i ddarparwyr o Loegr) ond mae'n dangos mai'r niferoedd yn 2002-03 oedd 11,944 a 39,403, yn y drefn honno.

Nid oes data cyffelyb ar gael am y niferoedd a gafodd eu gweld fel cleifion allanol neu a aeth i adrannau damweiniau ac achosion brys.

### Gofal Sylfaenol

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau effeithlonrwydd gweinyddol ym maes gofal sylfaenol? (WAQ27241)

**Jane Hutt:** Bydd y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd yn hybu datblygiad gwaith rheoli o fewn practisiau drwy sefydlu fframwaith cymwyseddau. Mae'r fframwaith ansawdd a chanlyniadau yn cynnwys parth trefniadaethol a fydd yn gwobrwyo meddygon teulu am arferion gweinyddu a rheoli da. Mae'r contract hefyd yn gwarantu buddsoddi mewn rheoli gwybodaeth ac mewn technoleg, sy'n hollbwysig i effeithlonrwydd gweinyddol yn ogystal ag ymarfer clinigol da.

### Cleifion Fesul Meddyg Teulu

**Jonathan Morgan:** Beth, ym marn y Gweinidog, yw'r gymhareb meddyg teulu i glaf ddelfrydol? (WAQ27242)

**Jane Hutt:** Nid wyf o'r farn fod cymhareb ddelfrydol o ran nifer y cleifion sydd gan feddygon teulu. Bydd yn amrywio yn ôl amgylchiadau. Er enghraifft, bydd gan feddygon teulu mewn ardaloedd gwledig restrau llai fel arfer na meddygon teulu mewn ardaloedd trefol. Fel arfer bydd y Pwyllgor Swyddi Meddygol Gwag (sy'n penderfynu ynghylch swyddi gwag yng Nghymru) yn cymeradwyo meddyg ychwanegol os bydd maint rhestr y practis wedi hynny yn weddol agos at y cyfartaledd fesul swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru.

### Crydcymalau Gwynegol

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a fydd yn edrych ar y dystiolaeth o wledydd eraill Gogledd Ewrop wrth baratoi strategaeth crydcymalau ar gyfer Cymru? (WAQ27245)

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Rhewmatoleg Prydain ar yr amrywiaeth o driniaethau sydd ar gael ar gyfer y crydcymalau gwynegol, ac a wnaiff Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu ei strategaeth ei hun? (WAQ27246)

**Jane Hutt:** Gallaf gadarnhau y bydd Cymru yn datblygu ei strategaeth crydcymalau ei hun. Bydd prif gorff y dystiolaeth yn dod o waith a wnaed gan gyrff megis y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, y corff dros Gymru a Lloegr sy'n edrych ar dechnolegau, a rhanddeiliaid eraill, megis Cymdeithas Rhewmatoleg Prydain a chyrff crydcymalau yn y sector gwirfoddol. Byddwn hefyd yn rhoi sylw priodol i waith cyffelyb a wnaed yng ngwledydd eraill gogledd Ewrop.

## Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd y Gymuned a Safonau)

**Jonathan Morgan:** Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi i gleifion sy'n byw ar ffin Cymru/Lloegr y byddant yn parhau i elwa o ofal hyblyg dan y Mesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd y Gymuned a Safonau) arfaethedig, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad? (WAQ27247)

**Jane Hutt:** Rhoddais ystyriaeth ofalus i fuddiannau cleifion sy'n byw ar ffin Cymru/Lloegr. Mae cymal 14 o Fesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd y Gymuned a Safonau) yn sefydlu y tu hwnt i unrhyw amheuaeth y ffaith y gall ymddiriedolaethau sefydledig yn Lloegr drin cleifion o Gymru a mannau eraill yn y DU yn unol â'r cytundebau a lunnir gyda'r comisiynwyr lleol.

Ar hyn o bryd mae cleifion o Gymru yn cael triniaeth yn Lloegr (a chleifion o Loegr yng Nghymru) drwy drefniadau cilyddol sydd wedi cael eu datblygu rhwng ysbytai a chyrff comisiynu a'r rheini wedi'u seilio, yn bennaf, ar amgylchiadau daearyddol yn ôl gofynion y gwasanaeth. Mae a wnelo'r trefniadau hyn â gwasanaethau eilaidd a thrydyddol fel ei gilydd. Y disgwyl yw y bydd y trefniadau hyn yn parhau.

## Meddygfeydd (Capasiti yng Nghaerdydd)

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o gleifion newydd y gall meddygfeydd meddygon teulu yng Nghaerdydd a'r cyffiniau eu derbyn? (WAQ27248)

**Jane Hutt:** Nid yw'r gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael eu cynnal ar sail lleoedd i gleifion, felly ni chesglir y data. Mae Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) 1992 yn pennu terfyn i nifer y cleifion ar restr meddyg teulu. Mae hwn yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol. Mae'r un rheoliadau yn rhoi'r hawl i gleifion gael eu cofrestru gyda meddyg teulu. Gall unrhyw berson sy'n cael anhawster i gael ei gofrestru wneud cais i'r bwrdd iechyd lleol i gael ei neilltuo i feddyg teulu.

## Gwasanaeth Meddygon Teulu Tywyn (Gwynedd)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cais a wnaed gan Wasanaeth Meddygon Teulu Tywyn (Gwynedd) i ryddhau presgripsiynau o'r feddygfa a pha broses ymgynghori a ddilynwyd gan y Gwasanaeth? (WAQ27252)

**Jane Hutt:** Mater i Fwrdd Iechyd Lleol Gwynedd yw'r cais a wnaed gan Wasanaeth Meddygon Teulu Tywyn i ryddhau presgripsiynau o'r feddygfa. Mae'r drefn o ran cyflwyno ceisiadau ac apeliadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol wedi ei nodi yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 (fel y'u diwygiwyd) SI Rhif 662, neu 'reoliadau 1992'.

## Fferyllfeydd Lleol

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith caniatáu i feddygfeydd ryddhau presgripsiynau ar fferyllfeydd lleol? (WAQ27253)

**Jane Hutt:** Y rheoliadau sy'n nodi'r drefn o ran cyflwyno ceisiadau ac apeliadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992 (fel y'u diwygiwyd) SI Rhif 662, neu 'reoliadau 1992'.

At ddibenion darparu gwasanaethau fferyllol i boblogaeth, caiff ardaloedd daearyddol eu disgrifio un ai fel ardaloedd (gwledig) a reolir neu rai (trefol) nas rheolir.

Dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig iawn y gall meddyg teulu mewn ardal (drefol) nas rheolir ryddhau cyffuriau i gleifion (er enghraifft, lle gall claf ddangos y byddai ef neu hi yn cael anhawster difrifol i gael y cyffuriau neu'r cymhorthion angenrheidiol).

Mewn ardaloedd (gwledig) a reolir, gall meddyg teulu ddarparu gwasanaeth rhyddhau cyffuriau i'r cleifion GIG hynny ar ei restr sy'n gymwys i'w derbyn cyhyd â bo'r meddyg wedi gwneud cais am gael gwneud hynny i'r bwrdd iechyd lleol perthnasol a'i fod, ar ôl hynny, wedi cael contract GIG un ai gan y bwrdd iechyd lleol neu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar apêl.

Dywed y rheoliadau y gall y bwrdd iechyd lleol wrthod cais gan feddyg i ddarparu gwasanaethau fferyllol os:

- nad yw'r meddyg mewn ardal (wledig) a reolir;
- yw'r meddyg yn dymuno darparu'r gwasanaeth hwn o fewn milltir i unrhyw fferyllfa; a
- lle bo nifer y ceisiadau yn gyfryw, neu fod yr amgylchiadau y gwneir hwy oddi tanynt yn gyfryw, fel y byddai caniatáu pob un ohonynt (neu fwy nag un ohonynt) yn gwneud niwed i'r ddarpariaeth briodol o wasanaethau fferyllol mewn unrhyw ardal.

Wrth ystyried cais gan feddyg, bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn ystyried pa un a fyddai rhoi caniatâd yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan unrhyw fferyllydd. Gall y Bwrdd Iechyd Lleol ganiatáu unrhyw gais yn amodol ar gyfyngiadau, i'r graddau y byddai niwed o'r fath yn cael ei achosi, pe byddai caniatáu'r cais yn llawn yn achosi niwed o'r fath fel arall.

## Llawdriniaeth ar y Geg yn Sir Fynwy

**David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau'r rhestr aros am lawdriniaeth ar y geg yn Sir Fynwy? (WAQ27256)

**Jane Hutt:** Nid oes ffigurau ar wahân ar gael i Sir Fynwy. Erbyn diwedd mis Mai 2003, yr oedd dau berson wedi aros dros 12 mis a 30 wedi aros dros chwe mis am lawdriniaeth ar y geg fel claf preswyl/achos dydd yng Ngwent. Nid oedd neb wedi aros mwy na 12 mis am apwyntiad fel claf allanol.

Erbyn hyn mae gan Gymru ddau gynllun hyfforddi proffesiynol cyffredinol mewn deintyddiaeth. Bob blwyddyn, mae 14 o ddeintyddion yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi blwyddyn sy'n eu cyflwyno i amryw o lwybrau gyrfaol a hyfforddi sy'n arwain tuag at swyddi cyflogedig yn y gwasanaethau deintyddol. Mae hyn yn gyfrwng i gyrchu at hyfforddiant arbenigol a fydd yn darparu ymgynghorwyr y dyfodol mewn meysydd megis llawdriniaeth y geg.

Comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o'r gweithlu deintyddol yng Nghymru. Cafodd adroddiad y grŵp datblygu a chynghori a oedd yn edrych ar y gweithlu deintyddol ei gyhoeddi fel atodiad at 'Ffyrdd i Ddiwygio: Strategaeth ar gyfer Gofal Deintyddol Sylfaenol yng Nghymru', papur ymgynghori a gyhoeddwyd yn 2002. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion ynglŷn ag ehangu'r gweithlu deintyddol ac mae'r ymatebion i'r ymgynghori yn cael eu dadansoddi gan fy swyddogion ar hyn o bryd.

Dengys data'r GIG am swyddi gwag nad oedd unrhyw swyddi gwag wedi'u cofnodi yn yr arbenigeddau ymgynghorol priodol yng Ngwent ym mis Medi 2002. Dengys cynlluniau'r gweithlu yn 2003 fod angen cynyddu'r ddarpariaeth dros y pum mlynedd nesaf.

## Triniaeth ar gyfer Cefnddannedd Cywasgedig

**David Davies:** Am faint y mae'n rhaid i rywun aros am driniaeth ar gyfer cefnddannedd cywasgedig yn Sir Fynwy? (WAQ27257)

**Jane Hutt:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog. Mater i'r byrddau iechyd lleol yw sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer gwasanaethau llawdriniaeth y geg.

## Ysbytai Sefydledig

**Glyn Davies:** A fydd gofyn i ysbytai sefydledig a sefydlwyd yn Lloegr drin cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan feddygon teulu sydd wedi'u lleoli yng Nghymru? (WAQ27262)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i fuddiannau cleifion sy'n byw ar ffin Cymru/Lloegr. Mae cymal 14 o Fesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd y Gymuned a Safonau) yn sefydlu y tu hwnt i unrhyw amheuaeth y ffaith y gall ymddiriedolaethau sefydledig yn Lloegr drin cleifion o Gymru a mannau eraill yn y DU yn unol â'r cytundebau a lunnir gyda'r comisiynwyr lleol.

### Ysbytai Sefydledig

**Glyn Davies:** Pa ddarpariaeth fydd yn cael ei gwneud i ddarparu gwasanaethau ysbyty i'r cleifion hynny, yn enwedig yn ardaloedd ffiniol dwyrain Cymru, sy'n cael eu hatgyfeirio'n rheolaidd i ysbytai yn Lloegr am driniaeth unwaith y daw'r ysbytai hynny yn ysbytai sefydledig? (WAQ27263)

**Jane Hutt:** O dan y trefniadau presennol mae cleifion o Gymru yn cael triniaeth yn Lloegr (a chleifion o Loegr yng Nghymru) drwy drefniadau cilyddol sydd wedi cael eu datblygu rhwng ysbytai a chyrff comisiynu a'r rheini wedi'u seilio, yn bennaf, ar amgylchiadau daearyddol yn ôl gofynion y gwasanaeth. Mae a wnelo'r trefniadau hyn â gwasanaethau eilaidd a thrydyddol fel ei gilydd. Y disgwyl yw y bydd y trefniadau hyn yn parhau.

Mae cymal 14 o Fesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd y Gymuned a Safonau) yn sefydlu y tu hwnt i unrhyw amheuaeth y ffaith y gall ymddiriedolaethau sefydledig yn Lloegr drin cleifion o Gymru a mannau eraill yn y DU yn unol â'r cytundebau a lunnir gyda'r comisiynwyr lleol.

### Cofrestru Cartrefi Gofal

**Glyn Davies:** Faint o geisiadau i gofrestru cartrefi gofal sydd wedi cael eu gwneud i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ers ei sefydlu? (WAQ27264)

**Jane Hutt:** Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003. Rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003 derbyniodd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru 208 o geisiadau i gofrestru cartrefi gofal i oedolion. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd oddi wrth awdurdodau lleol am gartrefi nad oedd yn ofynnol iddynt gofrestru cyn mis Ebrill 2002, er iddyntgael eu harolygu o'r blaen.

### Cofrestru Cartrefi Gofal

**Glyn Davies:** Faint o'r ceisiadau i gofrestru cartrefi gofal ers sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru fu'n geisiadau i gofrestru cartrefi gofal ar gyfer oedolion iau? (WAQ27265)

**Jane Hutt:** Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003. Rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Mawrth 2003, derbyniodd Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru 54 o geisiadau i gofrestru cartrefi gofal i oedolion iau. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd oddi wrth awdurdodau lleol am gartrefi nad oedd yn ofynnol iddynt gofrestru cyn mis Ebrill 2002, er iddynt gael eu harolygu o'r blaen.

### Cofrestru Cartrefi Gofal

**Glyn Davies:** Beth yw'r amser ar gyfartaledd rhwng dyddiad cyflwyno cais a dyddiad cofrestru llwyddiannus o ran ceisiadau ar gyfer pob cartref gofal? (WAQ27266)

**Glyn Davies:** Beth yw'r amser ar gyfartaledd rhwng dyddiad cyflwyno cais a dyddiad cofrestru llwyddiannus o ran ceisiadau ar gyfer cartrefi gofal ar gyfer oedolion iau? (WAQ27267)

**Glyn Davies:** Beth yw'r amser ar gyfartaledd rhwng dyddiad cyflwyno cais a dyddiad cofrestru llwyddiannus o ran ceisiadau ar gyfer cartrefi gofal a wnaed i swyddfa ranbarthol canolbarth Cymru? (WAQ27268)

**Glyn Davies:** Beth yw'r amser ar gyfartaledd rhwng dyddiad cyflwyno cais a dyddiad cofrestru llwyddiannus o ran ceisiadau ar gyfer cartrefi gofal ar gyfer oedolion iau a wnaed i swyddfa ranbarthol canolbarth Cymru? (WAQ27269)

**Jane Hutt:** Ni ddatganwyd disgwyliadau o ran yr amser ar gyfartaledd rhwng dyddiad gwneud cais am gofrestru a'r dyddiad y penderfynir ar y cais gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Mae'r amser a gymerir yn dibynnu i raddau helaeth ar pa mor gyflawn yw'r wybodaeth a roddir fel rhan o'r cais ac ar i'r archwiliadau person addas (gan gynnwys tystlythyrau, archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol) sy'n ofynnol yn ôl Deddf Safonau Gofal 2000 gael eu dychwelyd yn brydlon.

### 'Agenda ar gyfer Newid'

**Kirsty Williams:** Pa adnoddau ariannol sydd ar gael i gynorthwyo a hyfforddi'r staff a gaiff eu recriwtio er mwyn rhoi'r broses paru a gwerthuso swyddi ar waith o dan yr 'Agenda ar gyfer Newid'? (WAQ27270)

**Jane Hutt:** Er mwyn cynorthwyo cyflogwyr a chymdeithasau staff i roi'r 'Agenda ar gyfer Newid' ar waith, gan gynnwys y prosesau paru a gwerthuso, rhoddir swm o £1.1 miliwn ar gael dros y ddwy flynedd nesaf. Caiff y swm hwn ei rannu ymysg yr ymddiriedolaethau a bydd yn caniatáu i sefydliadau ymgymryd â'u cynlluniau gweithredu yn effeithiol. Mae rhywfaint o hyfforddiant wedi cael ei roi i gyflogwyr GIG yng Nghymru eisoes i sicrhau bod gan staff allweddol sgiliau paru swyddi perthnasol, a bydd hyfforddiant pellach yn cael ei ddarparu yn yr Hydref.

### Rhoi'r 'Agenda ar gyfer Newid' ar Waith

**Kirsty Williams:** Pa ganran o'r swyddi y bydd yn rhaid eu gwerthuso o dan yr 'Agenda ar gyfer Newid', a sut y mae hyn wedi effeithio ar y gwaith cynllunio cyllid i roi'r 'Agenda ar gyfer Newid' ar waith? (WAQ27271)

**Jane Hutt:** Rhagwelir na fydd angen gwerthuso ond tua 5 y cant o swyddi yn lleol. Y disgwyl yw y bydd gwerthusiadau ar y safleoedd gweithredu cynnar yn cael eu defnyddio fel canllawiau cenedlaethol, a byddant yn help i gyfyngu ar nifer y gwerthusiadau lleol. Cafodd hyn ystyriaeth yng nghostiadau'r 'Agenda ar gyfer Newid' a bydd digon o amser i ymgymryd â gwerthusiadau lleol ar ôl i'r broses paru swyddi gael ei chwblhau, yn gynnar y flwyddyn nesaf gobeithio.

### Ysbytai Sefydledig

**Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â grwpiau sy'n cynrychioli staff ynghylch effaith bosibl ysbytai sefydledig ar recriwtio a chadw staff? (WAQ27272)

**Jane Hutt:** Ni fu trafodaethau penodol am hyn â grwpiau sy'n cynrychioli staff (drwy'r fforwm partneriaeth) er i faterion recriwtio a chadw staff gael sylw yn rheolaidd. Mae'r strategaeth recriwtio a chadw a lansiwyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2002 yn nodi cyfres o fesurau i wella gallu GIG Cymru i ddenu a chadw staff. Mae'r rhain yn cynnwys hybu addysg a datblygiad proffesiynol parhaus drwy ddatblygu strategaeth dysgu gydol oes i'r staff i gyd; ffurfio Proffesiynau Iechyd Cymru i hybu addysg barhaus i nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; cyflwyno swyddi nyrsys a therapyddion ymgynghorol a datblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol i fod yn gymorth wrth gynllunio a gwerthuso swyddi. Yn ogystal, mae ymgyrch dychwelyd i ymarfer lwyddiannus yn cael ei chynnal ar gyfer nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae'r cyfleusterau gofal plant hefyd yn cael eu gwella.

## Ysbytai Sefydledig

**Nick Bourne:** Gan fod pleidlais bellach wedi'i chynnal yn San Steffan ar sefydlu ysbytai sefydledig yn Lloegr, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith ysbytai sefydledig yn Lloegr ar ei pholisi iechyd yng Nghymru? (WAQ27286)

**Jane Hutt:** Nid wyf yn disgwyl i'r ffaith fod ymddiriedolaethau GIG sefydledig yn cael eu creu yn Lloegr effeithio ar bolisi iechyd yng Nghymru.

Mae'r strwythurau GIG newydd a sefydlwyd ar 1 Ebrill 2003 yn annog gweithio drwy bartneriaeth a rhannu syniadau a'r arferion gorau. Bydd hyn, ynghyd â dull rheoli perfformiad sydd wedi'i seilio ar wella'n barhaus ac ar edrych mewn modd cytbwys ar berfformiad, yn rhoi inni yng Nghymru wasanaeth iechyd cryfach sy'n ceisio atebion lleol i anghenion lleol o fewn fframwaith blaenoriaethau i Gymru gyfan.

## Ysbytai Sefydledig

**Nick Bourne:** Pa asesiad a wnaed o effaith ysbytai sefydledig yn Lloegr ar lefelau staffio yng Nghymru? (WAQ27287)

**Jane Hutt:** Mae'n ofynnol i ysbytai sefydledig yn Lloegr gyflwyno'r 'Agenda ar gyfer Newid'—y rhaglen i foderneiddio cyflogau ac amodau gwasanaethau y GIG—fel safon sylfaenol. Yng Nghymru, mae cynlluniau i roi'r 'Agenda ar gyfer Newid' ar waith eisoes ar y gweill, a byddwn yn adeiladu ar hyn i barhau â'n hymgyrch i gyrraedd y targedau staffio a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae'r strategaeth recriwtio a chadw a lansiwyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2002 yn nodi cyfres o fesurau i wella gallu GIG Cymru i ddenu a chadw staff. Mae'r rhain yn cynnwys hybu addysg a datblygiad proffesiynol parhaus drwy ddatblygu strategaeth dysgu gydol oes i'r staff i gyd; ffurfio Proffesiynau Iechyd Cymru i hybu addysg barhaus i nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill; cyflwyno swyddi nyrsys a therapyddion ymgynghorol a datblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol i fod yn gymorth wrth gynllunio a gwerthuso swyddi. Yn ogystal, mae ymgyrch dychwelyd i ymarfer lwyddiannus yn cael ei chynnal ar gyfer nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae'r cyfleusterau gofal plant hefyd yn cael eu gwella.

## Ysbytai Sefydledig

**Nick Bourne:** Pa effaith a gaiff sefydlu ysbytai sefydledig yn Lloegr ar lif cleifion yng Nghymru? (WAQ27294)

**Jane Hutt:** Ni ragwelir y bydd sefydlu ymddiriedolaethau sefydledig yn Lloegr yn cael unrhyw effaith fawr ar lif cleifion yng Nghymru. O dan y trefniadau presennol mae cleifion o Gymru yn cael triniaeth yn Lloegr (a chleifion o Loegr yng Nghymru) drwy drefniadau cilyddol a ddatblygwyd rhwng ysbytai a chyrff comisiynu a'r rheini wedi'u seilio, yn bennaf, ar amgylchiadau daearyddol yn ôl gofynion y gwasanaeth. Mae a wnelo'r trefniadau hyn â gwasanaethau eilaidd a thrydyddol fel ei gilydd. Y disgwyl yw y bydd y trefniadau hyn yn parhau.

Mae cymal 14 o Fesur Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd y Gymuned a Safonau) yn sefydlu y tu hwnt i unrhyw amheuaeth y ffaith y gall ymddiriedolaethau sefydledig yn Lloegr drin cleifion o Gymru a mannau eraill yn y DU yn unol â'r cytundebau a lunnir gyda'r comisiynwyr lleol.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Cynllun Cymorth Prynu

**Owen John Thomas:** Pryd y mae’r Gweinidog yn disgwyl y bydd canlyniadau’r arolwg o weithredu’r cynllun cymorth prynu ar gael? (WAQ27214)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Cafodd adroddiad y ‘Preliminary Review of the Homebuy Scheme’ ei gyflwyno i’r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 2 Gorffennaf, fel rhan o’m hadroddiad ysgrifenedig ar y dyddiad hwnnw.

### Cynllun Cymorth Prynu

**Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu’r cyllid ar gyfer y cynllun cymorth prynu er mwyn galluogi cymdeithasau tai i brynu eiddo yng nghanol trefi a phentrefi i’w prynu neu eu gosod am brisiau y gall pobl leol eu fforddio? (WAQ27220)

**Edwina Hart:** Yr awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am benderfynu ar y blaenoriaethau o ran gwario’r grant tai cymdeithasol sydd ar gael yn eu hardal. Mae’r pwysigrwydd a roddir gan awdurdodau i anghenion grwpiau eraill y mae angen tai cymdeithasol arnynt yn effeithio ar faint o grant tai cymdeithasol a gynhwysir ganddynt yn y rhaglen ddatblygu ar gyfer cymorth prynu. Ym mhob un o’r tair blynedd diwethaf, mae £1.5 miliwn ychwanegol wedi ei ddarparu ar gyfer cymorth prynu yng nghefn gwlad lle bo rhaglen cymorth prynu benodol.

### Rhwydwaith Gwrth-Dlodi Cymru

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hynt cais Rhwydwaith Gwrth-Dlodi Cymru am arian o dan raglen Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ27321)

**Edwina Hart:** Nid yw’n briodol imi wneud datganiad ynglŷn â’r cais hwn ar hyn o bryd.

### Cynnig Trawsffiniol Dyffryn Aman Uchaf

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch faint o arian a ddyrannwyd drwy Cymunedau yn Gyntaf i bob ward unigol yng nghynnig trawsffiniol dyffryn Aman uchaf? (WAQ27330)

**Edwina Hart:** Dyrannwyd £191,509 i amryw o weithgareddau paratoadol Cymunedau yn Gyntaf ym Mrynaman Isaf a Gwaun Cae Gurwen, Cwarter Bach, Llynfell a Brynaman Uchaf. Mae’r ardaloedd hyn wedi elwa hefyd ar £275,056 at offer chwarae a gwaith adnewyddu, ystafelloedd newydd, parc sgrialu, gwella llochesau bws, a theledu cylch cyfyng. Yn ogystal, mae cronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf wedi dyfarnu gwerth £72,766 o arian i gyd.

### Arian Cymunedau yn Gyntaf

**Owen John Thomas:** A all y Gweinidog gadarnhau bod yr arian Cymunedau yn Gyntaf a ddyfarnwyd i Gyngor Sir Caerdydd wedi cael ei dalu i’r Cyngor ar gyfer blynyddoedd ariannol 2002-03 a 2003-04? (WAQ27343)

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog restru’r prosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn Butetown, Caerau, Tre-lai a Sblot sydd i fod i elwa ar y ceisiadau llwyddiannus a wnaeth Cyngor Sir Caerdydd i’r Cynulliad Cenedlaethol, am gyfanswm o fwy na miliwn o bunnoedd, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2003-04, 2004-05 a 2005-06? (WAQ27352)

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a oes modd cario drosodd danwariant Cymunedau yn Gyntaf Cyngor Sir Caerdydd, sef £302,107, ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002-03, neu a yw'r cyngor wedi fforffedu'r hyn na ddefnyddiwyd o'r swm gwreiddiol? (WAQ27353)

**Edwina Hart:** Yn 2002-03, dyfarnwyd £318,632.30 i Gyngor Sir Caerdydd. Hawliodd y cyngor £16,525, a dalwyd ym mis Mawrth 2003. Yn 2003-04, dyfarnwyd £408,790 i'r cyngor. Hyd yma, nid yw'r cyngor wedi cyflwyno hawliad.

Mae'r arian Cymunedau yn Gyntaf a ddyfarnwyd i wardiau Butetown, Caerau, Tre-lái a Sblot ar gyfer blynyddoedd ariannol 2003-04 i 2005-06 yn cynnwys penodi cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf, darparu swyddfeydd a pharatoi a chylchredeg cylchlythyrau.

O'r £302,107 na wariwyd yn ystod 2002-03, gofynnodd Cyngor Sir Caerdydd am i £22,000 gael ei ailbroffilio. Cafodd ei gynnwys yn nyraniad y Cyngor ar gyfer 2003-04.

### Prosiect LAWN

**Janet Ryder:** Faint o bobl sydd wedi'u hailgartrefu yng Nghymru o dan brosiect LAWN ac ym mhle? (WAQ27348)

**Edwina Hart:** Dywedir wrthyf fod 26 o aelwydydd wedi cael eu cartrefu yng Nghymru i gyd drwy gymorth LAWN hyd yma, a hynny yn ardaloedd yr awdurdodau lleol a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent: | 3 | (Cymdeithas Tai Unedig Cymru) |
| Pen-y-bont ar Ogwr: | 2 | (Cymdeithas Tai Cymru a Gorllewin Lloegr) |
| Caerffili: | 1 | (Cymdeithas Tai Cymru a Gorllewin Lloegr) |
| Sir Gaerfyrddin: | 1 | (Cymdeithas Tai Cymru a Gorllewin Lloegr) |
| Castell-nedd Port Talbot: | 1 | (Cymdeithas Tai Gwalia) |
| Rhondda Cynon Taf: | 1 | (Cymdeithas Tai Cymru a Gorllewin Lloegr) |
| Abertawe: | 16 | (15 gan gyngor Abertawe, 1 gan Gymdeithas Tai Gwalia) |
| Tor-faen: | 1 | (Cymdeithas Tai Unedig Cymru) |

### Prosiect LAWN

**Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch prosiect LAWN? (WAQ27349)

**Edwina Hart:** Mae fy swyddogion mewn cysylltiad â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog ynglŷn â'r fenter hon yn Lloegr. Mae wedi cadarnhau ei bod yn cyfrannu £100,000 y flwyddyn tuag at gostau'r cynllun. Mae'n gweld y cynllun fel ffordd o helpu teuluoedd i symud i gartref newydd, ac o baru landlordiaid cymdeithasol sydd â chartrefi gwag â landlordiaid eraill lle mae'r galw yn fawr. Mae gennyf rai pryderon ynglŷn ag effaith y polisi hwn yn y tymor hir.

### Prosiect LAWN

**Janet Ryder:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu gwrthwynebu'r gwaith o ailgartrefu pobl yng Nghymru o dan brosiect LAWN? (WAQ27350)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf gynlluniau ar hyn o bryd i wrthwynebu ailgartrefu pobl yng Nghymru drwy brosiect LAWN. O dan Ddeddf Digartrefedd 2002, ni chaiff awdurdodau tai lleol wrthod ymgeiswyr am nad ydynt yn byw yn eu hardal. Byddai'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol ychwanegol i atal awdurdodau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru rhag defnyddio LAWN.

Yr wyf yn deall pam bod y landlordiaid sy'n derbyn achosion o Lundain a mannau eraill lle mae'r galw yn fawr yn gwneud hynny. Maent am sicrhau bod modd iddynt osod pob eiddo sydd ganddynt. Fodd bynnag, yr wyf yn awyddus i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r holl faterion ailsefydlu, ac na ddylai derbyn yr aelwydydd hyn roi straen gormodol ar wasanaethau lleol eraill.

Hyd yma, mae'r niferoedd a gartrefwyd yng Nghymru drwy LAWN yn weddol fach, ond byddaf yn gofyn i'r swyddogion gadw llygad barcud ar y niferoedd sy'n cael eu cartrefu ac ar effaith ehangach y cynllun.

### Ailgartrefu Pobl yng Nghymru

**Janet Ryder:** A yw'r Gweinidog yn ceisio newid rheoliadau neu ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau yn Lloegr ailgartrefu pobl yng Nghymru ac eithrio'r rheini sy'n dianc rhag y posibilrwydd o drais? (WAQ27351)

**Edwina Hart:** Nid oes gennyf gynlluniau i newid y rheoliadau na diwygio'r ddeddfwriaeth ar hyn o bryd.

Mae'n ofynnol o dan God Canllawiau Llywodraeth y Cynulliad i Awdurdodau Lleol ynghylch Dyraniadau a Digartrefedd i awdurdodau lleol ystyried pob cais a wneir iddynt. Ni allant wrthod ymgeiswyr am nad ydynt yn byw yn eu hardal, ond gallant roi blaenoriaeth i ailgartrefu pobl sydd â 'chysylltiad lleol', fel y'i pennir gan adran 199 o Ddeddf Tai 1996. Nid oes unrhyw orfodaeth ar yr awdurdodau i dderbyn enwebiadau oddi wrth LAWN nac unrhyw gynllun mudo arall.

Yr ydym yn annog awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gymryd rhan yng nghynllun mudo cenedlaethol y Gwasanaethau Mudo a Chyfnewid Tai. Mae hwn yn hwyluso'r ffordd i denantiaid awdurdodau lleol neu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig symud i ardaloedd/at landlordiaid ledled y DU. Mae HOMES yn cynnal cynllun ar ran Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Gweithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Cwestiynau i'r Trefnydd

### Offerynnau Statudol a Gyfeiriwyd i Bwyllgorau

**Glyn Davies:** Sawl offeryn statudol a gyfeiriwyd gan y Gweinidog i bob un o Bwyllgorau Pwnc y Cynulliad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf? (WAQ27190)

**Y Trefnydd (Karen Sinclair):** Yn ôl Rheol Sefydlog Rhif 22.1, mae'n ofynnol i Weinidog hysbysu'r Aelodau am Orchymyn Cynulliad arfaethedig a gwahodd sylwadau yn datgan pa un ai a ddylai gael ei ystyried gan Bwyllgor Pwnc. Mae'n ofynnol i'r Gweinidog ystyried unrhyw sylwadau wrth gyflwyno argymhelliad i'r Pwyllgor Busnes o ran a ddylai'r Gorchymyn Cynulliad drafft gael ei ystyried gan y Pwyllgor Pwnc perthnasol ai peidio. Y Dirprwy Lywydd sy'n penderfynu pa Orchmynion Cynulliad drafft y dylid eu cyfeirio'n ffurfiol i Bwyllgor Pwnc. Yn ôl y drefn yn Rheol Sefydlog Rhif 22.5, mae'n ofynnol i'r Dirprwy Lywydd ystyried unrhyw gyngor a roddir gan y Pwyllgor Busnes ac unrhyw sylwadau a dderbynnir oddi wrth Aelodau. Felly, mae gan Aelodau pob plaid gryn lawer o lais yn y penderfyniad pa un a ddylai Gorchymyn Cynulliad drafft gael ei ystyried yn ffurfiol gan Bwyllgor Pwnc ai peidio.

Yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf 2001 ac 8 Gorffennaf 2003, cafodd 17 o Orchmynion Cynulliad drafft eu cyfeirio gan y Dirprwy Lywydd i gael eu hystyried yn ffurfiol gan Bwyllgorau Pwnc perthnasol y Cynulliad, yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog Rhif 22.5.

Yn ystod yr un cyfnod, cafodd 45 o Orchmynion Cynulliad arfaethedig eraill eu cyflwyno i Bwyllgorau Pwnc perthnasol y Cynulliad fel rhan o'r broses ymgynghori cyn cyrraedd y cam o'u cyflwyno i'r

Pwyllgor Busnes gyda'r Dirprwy Lywydd yn penderfynu'n ffurfiol arnynt. Yn ogystal, cafodd y Pwyllgorau Pwnc eu hysbysu am 242 arall o Orchmynion Cynulliad arfaethedig, eto cyn cyrraedd y cam o'u cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Busnes, gyda gwahoddiad i'r Pwyllgorau Pwnc nodi unrhyw offerynnau arfaethedig a ddylai gael eu hystyried yn fwy manwl gan Bwyllgor.